



Department
for Environment
Food & Rural Affairs



Scottish Government
Riaghaltas na h-Alba
gov.scot



Department of
**Agriculture, Environment
and Rural Affairs**

www.daera-ni.gov.uk



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymgynghoriad ar gyflwyno'r broses orfodol o olrhain gwastraff mewn modd digidol

Ionawr 2022



© Hawlfraint y Goron 2019

Mae'r wybodaeth hon wedi'i thrwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored f3.0. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn inni yn:

wastetracking@defra.gov.uk

www.gov.uk/defra

Cynnwys

Crynodeb gweithredol	1
Cefndir.....	2
Pam rydym yn ymgynghori.....	3
Diwygiadau cysylltiedig	3
Ymateb i'r ymgynghoriad hwn	5
Hyd.....	6
Ar ôl yr ymgynghoriad	6
Amdanoch chi	8
Beth gaiff ei olrhain a beth fydd yn ei olygu i chi?	9
Pryd na fydd angen olrhain gwastraff.....	14
Gofynion ar gyfer gwastraff a reolir mewn senarios arall.....	15
Pa gyfundrefnau adrodd a gaiff eu cynnwys yn y gwasanaeth?.....	16
Gwybodaeth a gofnodir fel rhan o'r gwasanaeth olrhain gwastraff	17
Cofnodi manylion triniaeth a chynnyrch.....	21
Rheoliadau Nwyddau Peryglus	22
Hierarchaeth wastraff	23
Ffyrdd o roi gwybodaeth.....	24
Pryd mae'n rhaid cofnodi gwybodaeth	25
Rolau a chyfrifoldebau.....	30
Gofynion eithrio'n ddigidol	35
Cadw data, cael gafael ar ddata a chyfrinachedd data.....	37
Gorfodi	43
Swyddogaethau rheoleiddio	45
Codi taliadau	46

Gweithredu.....49

Atodiad A: prosesau olrhain gwastraff digidol gorfodol yn y dyfodol ar gyfer symudiadau
gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus53

Atodiad B: prosesau olrhain gwastraff digidol gorfodol yn y dyfodol ar gyfer allforion
Gwastraff y Rhestr Werdd54

Atodiad C: prosesau olrhain gwastraff digidol gorfodol yn y dyfodol ar gyfer mewnforion
Gwastraff y Rhestr Werdd55

Crynodeb gweithredol

Yr achos dros newid

Mae'r DU wedi ymrwymo i symud tuag at economi fwy cylchol, gan olygu ein bod yn defnyddio adnoddau cyhyd â phosibl, yn cael y gwerth mwyaf posibl ohonynt, yn lleihau gwastraff ac yn hyrwyddo effeithlonrwydd adnoddau. Mae angen inni allu 'cau'r cylch' drwy droi'r gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu yn adnodd lle bynnag y bo modd. I wneud hyn rhaid inni sicrhau bod gennym yr wybodaeth am ba wastraff sy'n cael ei gynhyrchu ac i ble yr aiff yn y pen draw.

Caiff mwy na 200 miliwn tunnell o wastraff ei gynhyrchu yn y DU bob blwyddyn¹ ond ar hyn o bryd nid oes un ffordd gynhwysfawr o'i olrhain, gyda deddfwriaeth ynghylch cludo, rheoli a disgrifio gwastraff yn cael ei chyflwyno ar wahân dros y 30 mlynedd diwethaf.

Mae symiau mawr o ddata na chânt eu casglu na'u coladu'n ganolog, ac mae sawl system TG sy'n casglu elfennau penodol o ddata olrhain gwastraff. Mae rhai yn systemau papur ac mae eraill yn rhai digidol; mae rhai yn cael eu rhedeg gan gontractwyr preifat ac eraill gan y llywodraeth; a lle nad yw'n orfodol defnyddio systemau digidol canolog ar hyn o bryd, ni wneir fawr ddim defnydd ohonynt. O ganlyniad, mae'n anodd iawn penderfynu beth sy'n digwydd i'n gwastraff a meithrin dealltwriaeth gynhwysfawr o b'un a yw wedi'i ailgylchu, ei adfer neu ei waredu.

Bydd uno'r systemau darniog hyn a chael gwared ar systemau cadw cofnodion papur yn ei gwneud yn llawer haws ac yn llai trafferthus i gwmnïau gwastraff dilys gydymffurfio â gofynion adrodd a bydd hefyd yn ei gwneud yn llawer anos i weithredwyr twyllodrus gystadlu yn y diwydiant a chyflawni troseddau gwastraff yn cynnwys tipio anghyfreithlon, camddosbarthu gwastraff yn fwriadol, allforion gwastraff anghyfreithlon a gweithredu safleoedd gwastraff anghyfreithlon.

O dan y system bresennol, mae allforio gwastraff o dan reolaethau gwastraff y Rhestr Werdd yn system hunanreoleiddio; nid oes angen i'r rheini sy'n allforio'r gwastraff hwn gael cydsyniad na thalu unrhyw daliadau ar gyfer monitro cydymffurfiaeth. O ganlyniad, gall allforion gwastraff nad yw'n beryglus i'w ailgylchu adael Cymru a Lloegr heb i rheoleiddwyr y llwythi gwastraff fod yn ymwybodol pwy sy'n allforio'r gwastraff, beth sy'n cael ei allforio nac i ble mae'n mynd.

Mae cymhelliant ariannol i fanteisio ar y system gan weithredwyr sy'n cwtogi costau drwy allforio gwastraff halogedig neu o ansawdd is, a gan droseddwyr gwastraff cyfundrefnol

¹ [Ystadegau'r DU ar wastraff gan Defra ar GOV.UK](#)

sy'n gwneud elw drwy allforio gwastraff o ansawdd gwael yn anghyfreithlon drwy ei gamddisgrifio fel deunydd sy'n addas i'w ailgylchu.

Bydd prosesau olrhain gwastraff digidol yn gwella hyn, gan fod yr ymgynghoriad hwn yn cynnig y bydd angen i allforwyr nodi gwybodaeth am yr allforion arfaethedig cyn iddynt adael y DU, a bydd angen rhoi manylion i ble y mae'n mynd. Bydd y wybodaeth hon yn galluogi rheoleiddwyr i dargedu ymyriadau ar allforion gwastraff yn fwy effeithiol a rhwystro allforion y credant sy'n anghyfreithlon neu y cânt eu trin mewn modd anghyfreithlon.

Cefndir

Mae'r llywodraethau ledled y DU wedi ymrwymo i weithredu a mandadu'r broses o gofnodi symudiadau gwastraff mewn modd digidol, yn dilyn ymgynghoriad², ac maent wedi ymrwymo i weithio gyda'r diwydiant i ddatblygu system olrhain gwastraff electronig.

Yn 2020, fel rhan o gronfa Her GovTech Catalyst³, gwnaethom ddatblygu prototeipiau o wasanaeth olrhain gwastraff electronig ar y cyd â dau gyflenwr technoleg. Darparodd y sylfaen i ddatblygu'r gwasanaeth byw.

Wrth wraidd y gwaith o ddatblygu'r gwasanaeth TG mae panel defnyddwyr o ryw 1,200 o aelodau sy'n cynrychioli cynhyrchwyr gwastraff, cludwyr, broceriaid, gwerthwyr, gweithredwyr safleoedd gwastraff, awdurdodau lleol, a rheoleiddwyr o bob cwr o'r DU. Mae aelodau'r panel hwn yn helpu i ddatblygu'r gwasanaeth drwy gymryd rhan mewn ymchwil defnyddwyr a phrofi'r system wrth iddi gael ei datblygu.

Hoffem ei gwneud yn hawdd i olrhain gwastraff ac adnoddau mewn amser real ym mhob rhan o'r economi ac rydym yn anelu at ddarparu gwasanaeth olrhain gwastraff sy'n hawdd i'w ddefnyddio ac sy'n cynnig gwerth i bob defnyddiwr.

Caiff y gwasanaeth olrhain gwastraff ei ddatblygu yn unol â chanllawiau Llywodraeth y DU ar ddefnyddio safonau agored⁴. Byddwn yn defnyddio adnoddau a seilwaith hyblyg, graddadwy, cynaliadwy a diogel, gan ddylunio'r gwasanaeth yn seiliedig ar anghenion defnyddwyr sydd wedi cael eu datblygu a'u profi ar y cyd â'r panel defnyddwyr.

² [Mae'r ymrwymadau wedi'u nodi yn: Llywodraeth EM 'Our Waste, Our Resources: A Strategy for England' \(2018\), Llywodraeth yr Alban – Securing a green recovery on a path to net zero: climate change plan 2018-2032 update \(2020\) a Making Things Last: a circular economy strategy for Scotland \(2016\), a Llywodraeth Cymru – Mwy nag Ailgylchu: Strategaeth i wneud economi gylchol Cymru yn realiti \(2021\)](#)

³ [Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig – Waste management: smart tracking of waste \(GovTech Catalyst\) \(2019\)](#)

⁴ [Papwr Polisi Swyddfa'r Cabinet 'Open Standard principles' \(2018\)](#)

Pam rydym yn ymgynghori

Mae Deddf yr Amgylchedd 2021⁵ yn rhoi'r pwerau i Lywodraethau'r pedair gwlad yn y DU gyflwyno rheoliadau i sefydlu system electronig ar gyfer olrhain gwastraff.

Mae'r bil yn caniatáu i'r rheoliadau hynny ofyn am i wybodaeth benodol sy'n berthnasol i olrhain gwastraff gael ei chofnodi ar y system a chynnwys darpariaethau mewn sawl maes yn cynnwys:

- cael gafael ar y data ar y system olrhain gwastraff
- ffioedd a thaliadau
- esemptiadau a gofynion amgen ar gyfer personau sydd wedi'u heithrio'n ddigidol
- troseddau a chosbau

Diben yr ymgynghoriad hwn yw cyflwyno a cheisio barn ar ein cynigion ar gyfer hyn. Byddwn yn defnyddio'r adborth i adolygu a mireinio ein cynigion a gaiff eu hadlewyrchu mewn deddfwriaeth eilaidd ac a fydd yn llywio'r gwaith o ddylunio'r gwasanaeth olrhain gwastraff o safbwynt digidol. Felly, nid ydym yn bwriadu cynnal rhagor o ymgynghoriadau cyhoeddus ar y ddeddfwriaeth eilaidd.

Er bod y maes polisi gwastraff yn fater datganoledig, mae Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig wedi cytuno i gydweithio er mwyn datblygu gwasanaeth olrhain gwastraff ar gyfer y DU gyfan fel y gellir darparu system ddi-dor ledled y DU. Yn unol â hyn, mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal ar y cyd gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban ac Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon.

Diwygiadau cysylltiedig

Mae sawl maes polisi arall sy'n ymwneud â gwastraff yn destun diwygiadau sydd â chysylltiad â chyflwyno gwasanaeth olrhain gwastraff orfodol gan gynnwys:

Cyflwyno Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr⁶ ar gyfer deunydd pecynnu ledled y DU a fydd yn gofyn am gasglu gwybodaeth am symiau a chyfansoddiad deunydd pecynnu a ailgylchir ac a waredir, ac adrodd arni.

Cludo gwastraff ar draws ffiniau⁷— Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gyflwyno mesurau ychwanegol i dynhau rheolaethau ar allforion gwastraff, gan gynnwys ymrwymiad

⁵ [Deddf yr Amgylchedd 2021](#)

⁶ [Yr ymgynghoriad ar Gyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer Deunydd Pecynnu \(2021\)](#)

⁷ Nodwch: mae'r gwaharddiad hwn eisoes ar waith yng Ngogledd Iwerddon

i wahardd allforio gwastraff plastig i wledydd nad ydynt yn rhai OECD ac mae'n bwriadu cynnal ymgynghoriad ar wahân ar y diwygiadau hyn.

Gwella cysondeb ailgylchu a gwahanu casgliadau gwastraff i'w ailgylchu ledled y DU.

Yn Lloegr, caiff ymgynghoriad ar ddiwygio cludwyr, broceriaid a gwerthwyr ei gyhoeddi'n ddiweddarach eleni a bydd ymgynghoriad ar gyflwyno gofyniad i fusnesau bwyd o faint priodol roi gwybod am wastraff bwyd yn wedi'i gynllunio ar gyfer ddechrau 2022. Hefyd, bwriedir diwygio gwastraff peryglus er mwyn gwella cymhwysedd technegol ym maes dosbarthu gwastraff ac annog cynhyrchwyr a rheolwyr i weithredu'r hierarchaeth wastraff o ran gwastraff peryglus.

Graddau daearyddol a diffiniadau

Oni nodir fel arall, pan gyfeirir at 'y llywodraeth' cyfeirir at Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban ac Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon.

Felly, mae'r ddogfen hon a disgrifiadau o gyfraith bresennol yn ymwneud â Chymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Pan gyfeirir at weinidogion cyfeirir at weinidogion pob llywodraeth. Pan gyfeirir at 'y rheoleiddiwr' neu 'reoleiddwyr' cyfeirir at Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon ac Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yr Alban oni nodir fel arall.

Mae'r cyfeiriad at 'awdurdodau lleol' yn cynnwys cynghorau yng Ngogledd Iwerddon.

Cynulleidfa

Mae croeso i'r canlynol ymateb i'r ymgynghoriad hwn:

- busnesau a sefydliadau sydd ynghlwm wrth reoli gwastraff gan gynnwys awdurdodau lleol, cwmnïau rheoli gwastraff, cludwyr gwastraff, broceriaid, gwerthwyr ac allforwyr
- sefydliadau eraill megis sefydliadau proffesiynol ac aelodaeth, cyrff anllywodraethol, ymgynghorwyr, a sefydliadau elusennol sydd â diddordeb yn y ffordd y mae gwastraff yn cael ei reoli yn y DU
- cynhyrchwyr gwastraff
- aelodau'r cyhoedd

Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Nid oes raid ateb unrhyw gwestiwn yn yr ymgynghoriad hwn. Os nad ydych am ateb pob adran, nid oes angen i chi wneud hynny.

Ymatebwch i'r ymgynghoriad hwn yn un o'r ffyrdd canlynol:

Ar-lein gan ddefnyddio'r adnodd ar-lein [citizen space consultation](#)

Er mwyn gwneud y broses ddadansoddi yn hwylus, ymateb drwy lwyfan Citizen Space a ffefrir, neu gallwch ymateb drwy:

E-bost i: wastetracking@defra.gov.uk

Neu ysgrifennwch atom yn:

Consultation Coordinator, Defra
2nd Floor, Foss House, Kings Pool
1 to 2 Peasholme Green
York
YO1 7PX

Mae Defra yn rheoli'r broses ymgynghori ar ran Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban ac Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon.

Gall Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban weld yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar lwyfan ymgynghori Citizen Space.

Os hoffech anfon copi o'ch ymateb i'r ymgynghoriad i Lywodraeth Cymru a/neu Lywodraeth yr Alban, anfonwch ef i'r cyfeiriadau canlynol:

Yr Alban

I ymateb os ydych wedi eich lleoli yn yr Alban, gallwch e-bostio eqce.cezw@gov.scot

Neu ysgrifennwch at:

Zero Waste team
Scottish Government
3H South, Victoria Quay
Edinburgh
EH6 6QQ

Cymru

Os ydych wedi eich lleoli yng Nghymru, gallwch e-bostio EffeithlonrwyddAdnoddauAcEconomiGylchol@llyw.cymru i ymateb yn Gymraeg neu ResourceEfficiencyAndCircularEconomy@gov.wales i ymateb yn Saesneg.

Gogledd Iwerddon

Os ydych yn ymateb o Ogledd Iwerddon, sicrhewch fod copi o'ch ymateb hefyd yn cael ei anfon i WastePolicyTeam@daera-ni.gov.uk.

Hyd

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn para 12 wythnos. Mae hyn yn unol ag 'Egwyddorion Ymgynghori' Swyddfa'r Cabinet sy'n cynghori adrannau'r llywodraeth i fabwysiadu gweithdrefnau ymgynghori cymesur. Bydd yr ymgynghoriad yn agor ar 21 Ionawr 2022. Bydd yn cau ar 15 Ebrill 2022.

Ar ôl yr ymgynghoriad

Bydd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ac ymateb y llywodraeth yn cael eu cyhoeddi a'u rhoi ar wefannau'r llywodraeth yn www.gov.uk/defra, www.daera-ni.gov.uk, www.gov.scot a www.llyw.cymru

Bydd y crynodeb yn cynnwys rhestr o'r ymatebwyr a'r sefydliadau sydd wedi ymateb ond nid enwau personol, cyfeiriadau na manylion cyswllt eraill. Fodd bynnag, gall gwybodaeth a roddir mewn ymateb i'r ddogfen ymgynghori hon, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei rhyddhau i bartion eraill neu ei datgelu yn unol â'r cyfundrefnau mynediad i wybodaeth er enghraifft, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (Deddf 2000) a Deddf Diogelu Data 2018.

Os hoffech i'r wybodaeth a roddwch, gan gynnwys data personol, gael ei thrin yn gyfrinachol, dywedwch hynny'n glir yn ysgrifenedig wrth gyflwyno eich ymateb i'r ymgynghoriad, gan egluro pam y mae angen cadw'r manylion hyn yn gyfrinachol.

Os cawn gais i ddatgelu'r wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond oherwydd y gyfraith ni allwn sicrhau cyfrinachedd ymhob achos. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a grëir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried yn gais am gyfrinachedd.

Defra yw'r rheolwr data mewn perthynas ag unrhyw ddata personol a roddir gennych, ac mae [Siarter Gwybodaeth Bersonol](#) Defra ar GOV.UK, sy'n cynnwys manylion am eich hawliau mewn perthynas â thrafod eich data personol.

Cydymffurfiaeth â'r egwyddorion ymgynghori

Caiff yr ymgynghoriad hwn ei gynnal yn unol â'r egwyddorion ymgynghori yng [nghanllawiau'r Weithrediaeth Gwell Rheoleiddio](#).

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwynion am y broses ymgynghori, dylech eu hanfon dros e-bost i consultation.coordinator@defra.gov.uk

Neu ysgrifennwch at:

Consultation Coordinator, Defra
2nd Floor, Foss House, Kings Pool
1 to 2 Peasholme Green
York YO1 7PX

Amdanoch chi

C1) A hoffech i'ch ymateb fod yn gyfrinachol?

- hoffwn
- na hoffwn

Os gwnaethoch ateb "Hoffwn", rhowch eich rheswm

C2) Beth yw eich enw llawn?

C3) Beth yw eich cyfeiriad e-bost?

Mae hwn yn opsiynol, ond os byddwch yn rhoi eich cyfeiriad e-bost byddwch yn gallu dychwelyd i olygu eich ymateb i'r ymgynghoriad yn Citizen Space unrhyw bryd cyn ei gyflwyno. Hefyd byddwch yn cael e-bost yn cydnabod bod eich ymateb wedi dod i law.

C4) Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau y sawl rydych yn ymateb ar ei ran? dewiswch un opsiwn yn unig, os bydd mwy nag un categori yn gymwys, dewiswch yr un sy'n disgrifio orau y sefydliad rydych yn ei gynrychioli yn eich ymateb.

- sefydliad sy'n cynrychioli busnes neu gorff masnach
- gweithredwr safle gwastraff
- brocer neu werthwr gwastraff
- cwmni cludo gwastraff neu gludwr gwastraff
- cynhyrchwr gwastraff
- gweithgynhyrchwr cynhyrchion
- awdurdod lleol
- grŵp cymunedol
- sefydliad anllywodraethol
- elusen neu fenter gymdeithasol
- ymgynghoriaeth
- sefydliad academiaidd neu ymchwil
- aelod o'r cyhoedd
- arall

Os gwnaethoch ateb 'arall', rhowch fanylion

Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad neu fusnes, rhowch enw'r sefydliad neu'r busnes a brasamcan o nifer y staff (lle y bo'n gymwys).

C5) Gan ystyried ar ran pwy rydych yn ymateb, ym mha un o wledydd y DU rydych wedi eich lleoli neu'n gweithredu ynddi? (ticiwch bob un sy'n berthnasol)

- Lloegr
- Cymru
- Yr Alban
- Gogledd Iwerddon

C6) A fyddai gennych ddi-ddordeb mewn ymuno â'n panel defnyddwyr? Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r gwasanaeth olrhain gwastraff digidol, rydym wedi ffurfio panel defnyddwyr o bartïon â diddordeb. Gwahoddir aelodau o'r panel i gymryd rhan mewn ymchwil defnyddwyr (er enghraifft, arolygon, gweithdai, a chyfweliadau) neu i brofi gwasanaethau digidol wrth iddynt gael eu dylunio a'u hadeiladu.

- byddai
- na fyddai
- eisoes wedi cofrestru

Gallwch gofrestru ar gyfer y panel defnyddwyr [yma](#). Hefyd, rydym yn llunio cylchlythyrau rheolaidd am hynt y gwaith o ddatblygu'r gwasanaeth olrhain gwastraff. Ymunwch â'n rhestr bostio a byddwch yn derbyn ein cylchlythyron misol [yma](#).

Beth gaiff ei olrhain a beth fydd yn ei olygu i chi?

Gofynion cofnodi gwybodaeth cyfredol

Mae deddfwriaeth⁸ ledled y DU yn ei gwneud yn ofynnol i drosglwyddo disgrifiad ysgrifenedig sy'n galluogi pobl eraill i reoli gwastraff yn briodol ar adeg ei drosglwyddo. Gelwir hyn yn ofynion 'dyletswydd gofal' fel arfer. Ar gyfer gwastraff nad yw'n beryglus caiff hyn ei gwblhau gan ddefnyddio nodiadau trosglwyddo gwastraff ac ar gyfer gwastraff peryglus gelwir y cofnodion yn nodiadau cludo gwastraff peryglus (neu yn yr Alban, nodiadau cludo gwastraff arbennig).

Nid yw'r gofynion hyn yn gymwys i ddeiliad eiddo domestig pan fydd yn delio â gwastraff o'i gartref. Mae gan ddeiliad tai ddyletswydd gofal cyffyrddiad ysgafnach i sicrhau mai dim ond rhywun awdurdodedig sy'n mynd â'u gwastraff. Mae hyn yn gymwys i wastraff mewn bagiau bin du yn ogystal ag eitemau eraill megis hen fatresi, dodrefn, a chyfarpar cartref.

Mae gofynion cofnodi ychwanegol yn gymwys i'r rhai sy'n rheoli gwastraff peryglus, gan gynnwys yr angen i gadw cofnodion o unrhyw ddeunyddiau neu gynhyrchion a gaiff eu cynhyrchu yn sgil trin gwastraff. Mae'r gofynion ychwanegol hyn bellach yn gymwys i wastraff sy'n cynnwys llygyddion organig parhaus (POPs) hefyd.

Mae'r sylweddau hyn yn wenwynig, yn bio gronol, yn helaeth, ac nid ydynt yn torri i lawr yn yr amgylchedd. Er nad yw pob POP yn sylwedd peryglus, mae'n ofynnol olrhain

⁸ Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban a Gorchymyn Gwastraff a Thir Halogedig (Gogledd Iwerddon) 1997 ar gyfer Gogledd Iwerddon

gwastraff sy'n cynnwys POPs yn yr un modd â gwastraff peryglus (hyd yn oed os nad yw'n wastraff peryglus), ond nid oes gennym ddull cyson o wneud hyn ar hyn o bryd.

Mae gan rai safleoedd rheoli gwastraff amodau cofnodi data ar wastraff fel rhan o'u proses o gofrestru trwydded neu esemptiad. Gall hyn gynnwys manylion gwastraff sydd wedi cyrraedd neu adael y safle, yn ogystal â manylion cyfyngedig trin gwastraff, ond fel rheol dim ond bob chwarter y bydd angen y wybodaeth hon gan fwyaf, ac nid yw'n gymwys i bob safle sy'n derbyn ac yn rheoli gwastraff.

Mae esemptiadau gwastraff yn galluogi gweithrediadau gwastraff a ystyrir yn rhai risg is i gael eu cynnal yn unol â rheolau cyffredinol heb fod angen gwneud cais am drwydded amgylcheddol. Mae tua 60 o fathau gwahanol o esemptiadau gwastraff sy'n cwmpasu amrywiaeth o weithgareddau.

Er bod y gweithgareddau dan sylw yn cael eu hystyried yn rhai risg isel, gall llawer, o dan y rheolau cyffredinol sy'n gymwys iddynt, dderbyn symiau mawr o wastraff a defnyddio'r gwastraff hwnnw mewn sawl ffordd⁹. Yn Lloegr yn unig mae tua 500,000 o esemptiadau cofrestredig. Gwyddom fod esemptiadau yn cael eu camdefnyddio'n aml¹⁰ sy'n tanseilio busnesau sy'n gweithredu'n gyfreithlon yn y sector¹¹.

Heb wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd i wastraff a reoleiddir o dan esemptiadau cofrestredig, byddwn yn parhau i wynebu bwlch mawr yn ein gwybodaeth am faint o wastraff a pha fathau o wastraff a aildefnyddir, a adferir neu a waredir. Bydd hyn yn ein llesteirio wrth symud tuag at economi fwy cylchol ac yn ein hatal rhag meddu ar yr holl wybodaeth am wastraff peryglus a gwastraff sy'n cynnwys POPs.

⁹ Er enghraifft, ar hyn o bryd mae uchafswm o 5,000 o dunelli ar gyfer esemptiad U1 yng Nghymru a Lloegr, ac yn yr Alban mae esemptiad Paragraff 19 yn caniatáu i hyd at 50,000 o dunelli o wastraff gael ei storio a'i ddefnyddio at ddibenion gwaith adeiladu a gwaith perthnasol arall.

¹⁰ ['Ymgynghoriad ar gynigion i fynd i'r afael â throseddau a pherfformiad gwael yn y sector gwastraff a chyflwyno cosb benodedig newydd ar gyfer y ddyletswydd gofal mewn perthynas â gwastraff' gan Defra \(2018\)](#)

¹¹ Amcangyfrifodd astudiaeth 2017 gan Eunomia a'r Gymdeithas ar gyfer Gwasanaethau Amgylcheddol petai ond 5% o esemptiadau cofrestredig yn methu â chydymffurfio byddai'r gost i economi Lloegr yn £87 milion y flwyddyn mewn trosiant a gollwyd i'r diwydiant rheoli gwastraff dilys a refeiwr treth a gollwyd.

Y cynigion

Mathau o wastraff

Cynigiwn y dylai gwastraff wedi'i reoli (yn cwmpasu gwastraff cartrefi a gwastraff masnachol a diwydiannol sy'n beryglus ac nad yw'n beryglus) a gwastraff echdynnol (megis o fwyngloddiau a chwareli) fod yn destun gofynion cofnodi gwybodaeth ar gyfer gwasanaeth olrhain gwastraff digidol.

Bydd hyn yn safoni gofynion sy'n gymwys i wastraff o bob math a ledled pedair gwlad y DU, yn ogystal â sicrhau bod gennym ddarlun cyflawn o'r gwastraff a gynhrychir a sut y caiff ei reoli. Hefyd, mae'n fodd i unrhyw wastraff a reolir neu unrhyw wastraff echdynnol sy'n cynnwys POPs gael ei nodi fel rhan o'r gwasanaeth newydd a'i olrhain yn briodol.

Gweithgareddau gwastraff

Cynigiwn ddefnyddio'r gwasanaeth olrhain gwastraff i nodi taith lawn gwastraff o'r adeg y caiff ei gynhyrchu a'i drosglwyddo i berson neu safle arall, i'r adeg y mae'n cyrraedd ei gyrchfan. Cynigiwn uno'r gweithgareddau a gofnodir ar y daith hon ar gyfer pob math o wastraff, fel bod un dull cyson a chynhwysfawr sy'n glir i bob deiliad gwastraff.

Cynigiwn ddefnyddio gofynion cofnodi presennol gweithgareddau gwastraff peryglus fel sail i'r dull cyson hwn. Felly, byddai'r un gweithgareddau yn cael eu cofnodi ar gyfer gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus, gyda rhai eithriadau ar gyfer gwastraff nad yw'n beryglus ar y safle lle caiff ei gynhyrchu.

Fel rhan o hyn, cynigiwn gofnodi'r gyrchfan nesaf ar gyfer deunyddiau a chynhyrchion diwedd gwastraff er mwyn cael darlun llawn o'r hyn sy'n digwydd i'r holl wastraff, gan gynnwys ei lwybr fel rhan o'r economi gylchol.

Gweithgareddau gwastraff i gael eu cofnodi yn y gwasanaeth olrhain gwastraff

1. Gwastraff a drosglwyddir i berson neu gwmni arall (ar yr un safle neu safle gwahanol).

Bydd hyn yn cynnwys trosglwyddo gwastraff o gartrefi i gludwyr gwastraff cofrestredig, ond nid lle caiff gwastraff cartrefi ei gasglu gan yr awdurdod lleol. Bydd gwastraff a gaiff ei fewnforio neu ei allforio o dan reolaethau Gwastraff y Rhestr Werdd Erthygl 18¹² ('Rheolaethau Gwastraff y Rhestr Werdd') yn cael ei gynnwys hefyd.

2. Gwastraff a symudir rhwng safleoedd a reolir gan yr un person
3. Gwastraff a gaiff ei drin ar y safle gan y deiliad gwastraff

¹² [Rheolaethau Gwastraff y Rhestr Werdd](#)

4. Gwastraff sydd wedi cael ei drin er mwyn sicrhau ei fod wedyn yn addas i'w aildddefnyddio, ailgylchu, adfer, neu waredu.
5. Gwastraff sydd wedi'i ollwng, ei waredu, neu ei adfer gan gynnwys drwy aildddefnyddio neu ailgylchu.
6. Cynhyrchion diwedd gwastraff neu ddeunyddiau¹³ a gynhyrchir o wastraff ac a gludir wedyn i'r gyrchfan nesaf. Yn gyfyngedig i symudiad cyntaf neu werthu cynhyrchion ar ôl eu cynhyrchu.

Beth fydd hyn yn ei olygu i chi?

Gwastraff busnes

Fel busnes sy'n gwaredu gwastraff, yn hytrach na chadw cofnodion papur ar gyfer y gwastraff sy'n gadael eich safle, caiff cofnod digidol ei greu fel rhan o'r gwasanaeth olrhain gwastraff. Gall eich cludwr gwastraff wneud y cofnod hwn ar eich rhan, ond fel nawr, bydd angen i chi sicrhau bod y manylion yn gywir.

Bydd yn haws nag erioed o'r blaen i weld beth yn union sy'n digwydd i'ch gwastraff, gan olygu bod eich cyfrifoldebau dyletswydd gofal yn llawer symlach. Os bydd yr un cludwr yn casglu'r un math o wastraff oddi wrthyhych yn rheolaidd, bydd y gwasanaeth yn cael ei ddylunio mewn ffordd sy'n arbed hyd yn oed fwy o amser i chi.

Gwastraff cartref

Fel preswlydd ni fydd hyn yn newid eich casgliadau biniau gan y cyngor. Pan fydd gwastraff arall yn cael ei gasglu, mewn sgip er enghraifft sydd wedi'i roi ynddo gennych chi neu gan bobl sy'n gweithio i chi, bydd angen i'r person neu'r busnes sy'n casglu'r gwastraff greu cofnod digidol.

Byddwch yn cael dynodydd unigryw y gallwch ei ddefnyddio i weld beth sy'n digwydd i'ch gwastraff, gan roi tawelwch meddwl i chi fod y gwastraff wedi'i waredu'n gywir, a chan helpu i leihau'r risg o dipio anghyfreithlon.

¹³ Cynhyrchion a deunyddiau wedi'u cynhyrchu o wastraff na chaiff ei ystyried yn wastraff mwyach ac sydd wedi ennill statws diwedd gwastraff. Gall hyn ddigwydd drwy gydymffurfio â fersiynau cyfraith yr UE argadwedig o reoliadau'r UE (megis rheoliadau diwedd gwastraff yr UE), Protocolau Ansawdd (neu Fframweithiau Adnoddau yn y dyfodol) sy'n gymwys yn y wlad berthnasol, penderfyniadau fesul achos gan y rheoleiddwyr amgylcheddol perthnasol, neu drwy hunanasesiad busnes yn unol â deddfwriaeth.

Awdurdodau lleol

Fel awdurdod casglu gwastraff, ni fydd angen i chi olrhain gwastraff sy'n rhan o gasgliadau cartrefi unigol. Bydd angen i'r gwastraff gael ei gofnodi fel rhan o'r gwasanaeth pan fydd yn cyrraedd safle derbyn ac yna caiff ei olrhain ymhellach fel sy'n ofynnol.

Os ydych yn darparu gwasanaeth casglu gwastraff y telir amdano i fusnesau masnachol neu safleoedd diwydiannol, yna bydd angen i chi gofnodi'r symudiadau gwastraff hynny o eiddo'r cynhyrchwyr.

Bydd cryn dipyn o'r wybodaeth roedd angen i chi ei chasglu a'i chofnodi gynt drwy WasteDataFlow bellach yn rhan o'r gwasanaeth olrhain gwastraff felly ni fydd angen ichi adrodd arno ar wahân mwyach. Byddwch yn cael gwybodaeth llawer mwy amserol am yr hyn sy'n digwydd i wastraff yn eich ardal.

Gweithredwyr safleoedd gwastraff

Fel gweithredwr safle gwastraff megis unrhyw safle sy'n derbyn gwastraff yn cynnwys esemptiadau cofrestredig, bydd angen i chi gofnodi manylion y gwastraff a ddaw i'ch safle ac yna'r hyn rydych yn ei wneud ag ef yn ddigidol fel rhan o'r gwasanaeth olrhain gwastraff yn hytrach na defnyddio system bapur.

Drwy'r gwasanaeth digidol, ein bwriad yw darparu crynodebau ac adroddiadau hawdd eu deall ac y gellir eu teilwra ynghylch y gwastraff rydych yn ei drin, gan eich helpu i wneud penderfyniadau mwy gwybodus am eich gweithrediadau busnes a'ch helpu i gydymffurfio ag unrhyw gofrestriadau neu drwyddedau gwastraff a all fod gennych.

Mewnforwyr ac allforwyr gwastraff

Fel mewnforiwr neu allforiwr gwastraff bydd angen i chi gofnodi manylion y gwastraff rydych yn bwriadu ei fewnforio neu ei allforio o dan reolaethau Gwastraff y Rhestr Werdd gan ddefnyddio'r gwasanaeth olrhain gwastraff. Byddwch yn parhau i ddefnyddio system ar-lein bresennol Cludo Gwastraff Rhyngwladol i gofnodi unrhyw allforion hysbysadwy.

Bydd y rhai sydd ynghlwm wrth gludo'r gwastraff i'w allforio yn y DU yn ychwanegu eu gwybodaeth at y gwasanaeth olrhain gwastraff felly byddwch yn gallu gwybod lle yn union mae unrhyw wastraff rydych yn ei reoli ar bob cam yn y symudiad, gan eich galluogi i gyflawni eich cyfrifoldebau dyletswydd gofal.

Swyddogion rheoleiddiol amgylcheddol

Fel swyddog rheoleiddiol amgylcheddol, byddwch yn gallu cael gafael ar wybodaeth gynhwysfawr ac amserol am yr holl symudiadau a gweithgareddau gwastraff yn eich ardal. Bydd hyn yn eich helpu i ganfod gwastraff sy'n diflannu neu nad yw'n cyrraedd cam nesaf y gadwyn (a allai fod yn arwydd ei fod wedi cael ei ddympio'n anghyfreithlon) a rhoi thystiolaeth ynghylch pwy all fod yn gyfrifol amdano, megis:

- gwastraff sy'n cael ei bentyrru ar safleoedd
- disgrifiadau o wastraff sy'n newid yn annisgwyl (i osgoi treth dirlenwi o bosibl)
- patrymau anarferol o drosglwyddo gwastraff (a all fod yn arwydd o gynlluniau twyll posibl)

C7) Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r mathau o wastraff rydym yn cynnig eu holrhain?

- cytuno
- anghytuno
- dim barn

Os gwnaethoch ateb 'anghytuno', dywedwch pam wrthym

C8) Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynigion ar gyfer pa weithgareddau gwastraff a gaiff eu cofnodi yn y gwasanaeth olrhain gwastraff?

- cytuno
- anghytuno
- dim barn

Os gwnaethoch ateb 'anghytuno', dywedwch pam wrthym

Pryd na fydd angen olrhain gwastraff

Nid ydym am atal cynhyrchwyr gwastraff rhag trin gwastraff nad yw'n beryglus er mwyn ei alluogi i gael ei reoli ymhellach i fyny'r hierarchaeth wastraff megis drwy ei aildddefnyddio, ei adfer neu ei ailgylchu.

Felly, rydym yn cynnig, ar gyfer gwastraff nad yw'n beryglus yn unig, na fydd angen cofnodi manylion y gweithgareddau canlynol ar y safle cynhyrchu:

- gwastraff a gaiff ei drin ar y safle gan y deiliad gwastraff.
- gwastraff sydd wedi cael ei drin er mwyn sicrhau ei fod wedyn yn addas i'w aildddefnyddio, ailgylchu, adfer, neu waredu.
- gwastraff sydd wedi'i ollwng, ei waredu, neu ei adfer gan gynnwys drwy aildddefnyddio neu ailgylchu.

Mae hyn hefyd yn gymwys i nifer o eithriadau gwastraff cofrestredig nad ydynt yn cynnwys trosglwyddo gwastraff i mewn neu allan o'r lle y cafodd ei gofrestru ei enghraifft, D2 – llosgi meinwe planhigion a phren heb ei drin o weithgareddau gwaith saer (Cymru a Lloegr) neu Baragraff 30 cyfatebol Llosgi gwastraff meinwe planhigion ar dir agored yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban.

Gofynion ar gyfer gwastraff a reolir mewn senarios arall

Ar wahân i drwyddedau gwastraff neu esemptiadau cofrestredig, gall gwastraff hefyd gael ei reoli o dan nifer o fathau eraill o awdurdodiad, megis: esemptiadau o dan y Gyfarwydddeb Fframwaith Di-wastraff sy'n galluogi y gellir storio gwastraff dros dro mewn amgylchiadau penodol, er enghraifft, siop sy'n darparu cynhwysydd i gwsmeriaid waredu batris gwastraff.

Sefyllfaoedd Gwastraff Risg Isel (a elwir yn Ddatganiadau Sefyllfa Rheoleiddiol yn yr Alban, a Gweithrediadau Adfer Gwastraff Risg Isel yng Nghymru) sy'n cwmpasu gweithgareddau penodol y mae rheoleidiwr amgylcheddol wedi penderfynu na fydd yn cymryd camau gorfodi fel arfer lle mae person wedi cydymffurfio â'r holl amodau perthnasol. Er enghraifft, LRWP 11 Storio a datgysylltu mesuryddion nwy domestig gwastraff.

Datganiadau Sefyllfa Rheoleiddiol (a elwir yn Benderfyniadau Rheoleiddiol yng Nghymru) sy'n dueddol o gwmpasu achosion ehangach ac fel arfer am gyfnod dros dro lle mae rheoleidiwr amgylcheddol wedi penderfynu na fydd yn cymryd camau gorfodi fel arfer yn erbyn person sydd wedi cydymffurfio â'r holl amodau yn y Datganiad Sefyllfa Rheoleiddiol neu Benderfyniad Rheoleiddiol hwnnw. Enghraifft o hyn yw RPS 224 sy'n caniatáu casglu gwastraff nad yw'n fwyd, nad yw'n beryglus o wahanol eiddo ar un safle.

Lle mae'r rhain ar hyn o bryd yn gofyn am gofnodi symudiadau neu drosglwyddiadau gwastraff o dan Ddyletswydd Gofal, bydd angen cofnodion tebyg fel rhan o'r gwasanaeth olrhain gwastraff.

Fodd bynnag, lle mae'r awdurdodiadau hyn yn caniatáu cynnal rhagor o weithgareddau gwastraff er enghraifft, gwaredu, adfer neu drin gwastraff, ar hyn o bryd nid oes gofynion penodol ynghylch cofnodi manylion hyn ac mae opsiynau i ofyn am hyn fel rhan o'r gwasanaeth olrhain gwastraff newydd, gan gynnwys:

- gofyn am fanylion llawn (fel yn yr adran 'Gweithgareddau gwastraff i gael eu cofnodi yn y gwasanaeth olrhain gwastraff')
- eu hesemptio rhag yr angen i ddarparu'r wybodaeth bellach hon, nodwch y byddai hyn wedi creu bwlch yn ein darlun gwastraff cyffredinol
- cymysgedd, gyda rhai gweithgareddau penodol yn cynnwys gofyniad i gofnodi'r manylion hyn ac eraill nad ydynt

C9) Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynigion ar gyfer pryd na fydd angen olrhain gwastraff?

- cytuno
- anghytuno
- dim barn

Os gwnaethoch ateb 'anghytuno', dywedwch pam wrthym

C10) Oes gennych chi unrhyw farn ynghylch sut y dylem gynnwys gweithgareddau gwastraff a gynhelir o dan esemptiadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Di-wastraff, Sefyllfaoedd Gwastraff Risg Isel a Datganiadau Sefyllfa Rheoleiddiol fel rhan o'r gwasanaeth olrhain gwastraff? A ddylem wneud y canlynol:

- a) gofyn am fanylion llawn (fel uchod yn yr adran 'Gweithgareddau gwastraff i gael eu cofnodi yn y gwasanaeth olrhain gwastraff'),
- b) eu hesemptio rhag yr angen i ddarparu'r wybodaeth bellach hon, gan nodi y byddai hyn yn creu bwlch yn ein darlun gwastraff cyffrediol,
- c) cael cymysgedd o a) a b), gyda rhai gweithgareddau penodol yn cynnwys gofyniad i gofnodi'r manylion hyn ac eraill nad ydynt
- d) gwneud rhywbeth arall i'w cynnwys.

Os gwnaethoch ateb (d), rhowch fanylion.

Pa gyfundrefnau adrodd a gaiff eu cynnwys yn y gwasanaeth?

Unwaith y bydd y gwasanaeth olrhain gwastraff newydd ar waith, bydd gwybodaeth am drosglwyddiadau, symudiadau a gweithgareddau gwastraff yn cael ei chofnodi mewn un man, felly byddwn yn gallu dileu llawer o'r gofynion adrodd ar wahân presennol ar gyfer busnesau ac awdurdodau lleol yn cynnwys:

- ffurflenni safleoedd trwyddedig ac a ganiateir chwarterol
- ffurflenni gwastraff peryglus (Cymru a Lloegr)
- ffurflenni crynhoi gwastraff (Gogledd Iwerddon)
- ffurflenni esemptiadau cymhleth y gall SEPA (yr Alban) ofyn amdanynt
- gwybodaeth awdurdodau lleol am gasglu a thrin gwastraff
- yng Ngogledd Iwerddon - nodiadau cludo rhaghysbysu am wastraff peryglus a chyflwyno ffurflenni Atodiad VII i NIEA
- yn yr Alban – cyflwyno ffurflenni Atodiad VII cyn cludo a chyflwyno copïau adneuo nodiadau cludo gwastraff peryglus/arbennig i SEPA

C11) Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynigion i ddileu'r gofyniad i gyflwyno gwybodaeth neu ffurflenni data ar wastraff fel y'u rhestrir, pan fydd y gwasanaeth olrhain gwastraff yn fyw?

- cytuno
- anghytuno
- dim barn

Os gwnaethoch ateb 'anghytuno', dywedwch pam wrthym

Gwybodaeth a gofnodir fel rhan o'r gwasanaeth olrhain gwastraff

Mae'r gallu i olrhain gwastraff yn effeithiol o'r cam cynhyrchu i'w dynged yn cael ei lesteirio ar hyn o bryd gan y ffaith, ar gyfer y mwyafrif o symudiadau a throsglwyddiadau gwastraff (nad yw'n beryglus a Gwastraff y Rhestr Werdd), nad oes gofyniad cyfreithiol i ddefnyddio dynodydd unigryw.

Hefyd, nid oes dull cyson o olrhain gwastraff a wrthodir gan safle, sy'n darparu'r cyfle i ailddosbarthu gwastraff yn fwriadol anghywir er mwyn iddo gael ei dderbyn ar safle arall, a thrwy hynny beri risg i'r amgylchedd, tanseilio busnesau dilys ac o bosibl osgoi costau y gallai fod angen eu talu fel arall er enghraifft, ardrethi tirlenwi uwch.

Er mwyn mynd i'r afael â'r problemau sydd gan y system bresennol o gofnodi gwybodaeth am wastraff, rydym yn cynnig cofnodi peth gwybodaeth ychwanegol fel rhan o'r gwasanaeth olrhain gwastraff fel y'i nodir yn Nhabl 1 isod.

Ni fydd yr holl ofynion gwybodaeth yn gymwys i holl ddefnyddwyr y gwasanaeth olrhain gwastraff. Bydd hyn yn dibynnu ar y math o wastraff a gaiff ei drin neu'r math o symudiad gwastraff a gynhelir a rôl rhywun yn y broses honno.

Tabl 1 – Gwybodaeth i'w chofnodi fel rhan o'r gwasanaeth olrhain gwastraff

Gwybodaeth	Disgrifiad
Dynodydd unigryw	Bydd pob symudiad gwastraff rhwng y cynhyrchwr a'r safle derbyn yn cael dynodydd unigryw a gynhyrchir gan y gwasanaeth.
Casglu gwastraff	Cynnwys meysydd i gofnodi manylion pwy wnaeth ddosbarthu'r gwastraff (ar ben y wybodaeth sy'n disgrifio'r gwastraff sy'n ofynnol hefyd ar hyn o bryd)
Manylion cyrchfan y gwastraff	Bydd angen rhoi manylion am y safle derbyn bwriadedig ar gyfer pob symudiad gwastraff, yn cynnwys y math o awdurdodiad sydd gan y safle derbyn, er enghraifft, trwydded, esemptiad neu sefyllfa gwastraff risg isel.

Gwybodaeth	Disgrifiad
Codau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC)	<p>Defnyddir codau SIC i ddynodi'r math o broses neu ddiwydiant a gynhyrchodd y gwastraff.</p> <p>Mae'r wybodaeth hon yn ddefnyddiol i nodi patrymau a thueddiadau ynghylch cynhyrchu gwastraff a all gael eu defnyddio i lywio gwaith llunio polisi.</p> <p>Ar hyn o bryd, mae angen codau o'r fath ar gyfer gwastraff peryglus ond rydym yn cynnig ehangu hyn i bob math o wastraff a gaiff ei symud neu ei drosglwyddo o safleoedd masnachol.</p>
Manylion llwythi a wrthodwyd neu sydd dan gwarantîn	Bydd y gwasanaeth yn ymgorffori proses gyson o nodi gwastraff a wrthodwyd a'i drosglwyddo neu symud wedyn er mwyn sicrhau bod llwybr archwilio llawn.
Manylion trin gwastraff yn cynnwys tynged gwastraff	<p>Bydd angen i fanylion triniaeth pob math o wastraff (fel yn yr adran 'Gweithgareddau gwastraff i gael eu cofnodi yn y gwasanaeth olrhain gwastraff').</p> <p>Mae eisoes yn orfodol cofnodi manylion triniaeth gwastraff peryglus a gwastraff a gludir o dan reolaethau Gwastraff y Rhestr Werdd. Mae hefyd angen gwneud hyn ar ffurflenni safleoedd ar gyfer llawer o safleoedd gwastraff a ganiateir.</p> <p>Byddai ehangu'r gofyniad hwn i gwmpasu'r holl wastraff a reolir ac a echdynnir yn rhoi llawer gwell syniad i ni o'r gwahanol driniaethau sy'n digwydd ac i ba raddau.</p> <p>Gallai hyn helpu i lywio polisiâu ynghylch gwahanol weithgareddau trin a seilwaith gwastraff, a darparu gwybodaeth am argaeledd gwastraff wedi'i drin ar gyfer cynhyrchion newydd ac arloesol neu brosesau diwydiannol.</p>
Nodi Llygryddion Organig Parhaus (POP)	Bydd y gwasanaeth olrhain gwastraff newydd yn cynnwys ffordd o ddynodi bod gwastraff yn cynnwys POPs (gwybodaeth sylfaenol) ac o bosibl fanylion ynghylch beth yw'r POPs hynny a lefel y cynnwys (gwybodaeth lefel uwch).
Manylion deunyddiau a chynhyrchion diwedd gwastraff a gynhyrchir	Gall y wybodaeth sydd ei hangen yma gynnwys manylion sylfaenol megis disgrifiad yn cynnwys pwysau a chyfeintiau, yn ogystal â manylion unrhyw safonau cymwys, protocolau ansawdd, fframweithiau ansawdd neu benderfyniadau diwedd gwastraff (yn cynnwys hunanasesiad o statws diwedd gwastraff) sy'n gysylltiedig â'r cynnyrch neu ddeunydd.
Cyrchfan deunyddiau neu gynhyrchion diwedd gwastraff	Gall y gofynion yma gynnwys cyfeiriad a manylion cyswllt cyrchfan unrhyw ddeunyddiau neu gynhyrchion diwedd gwastraff (yn gyfyngedig i'r symudiad cyntaf), disgrifiad a phwysau/cyfaint cynhyrchion a symudir i bob cyrchfan a manylion pryd y digwyddodd y symudiad hwnnw.
Gofynion sy'n benodol i wlad	Byddwn yn defnyddio'r gwasanaeth olrhain gwastraff i ymgorffori unrhyw ofynion o ran cofnodi gwybodaeth am wastraff sy'n benodol i wlad yn y dyfodol.

Gwybodaeth	Disgrifiad
	<p>Er enghraifft, yn yr Alban, lle na fydd hawl anfon gwastraff trefol biogdiraddadwy i safleoedd tirlenwi o 2025. Lle caiff y gwastraff ei ddsbarthu fel un o sawl cod penodol, bydd angen i'r deiliad gwastraff gofnodi bod y gwastraff naill ai:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ddim o ffynhonnell 'drefol' neu, • wedi'i drin ac yn cydymffurfio â'r prawf biogdiraddadwyedd perthnasol <p>Gall fod gofynion eraill o ran gwybodaeth yn sgil diwygiadau eraill, megis y rhai ar gyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr a chasgliadau gwastraff ar wahân.</p>

C12) Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion cofnodi gwybodaeth yn Nhabl 1?

a) Dynodydd unigryw a gaiff ei greu gan y system

- cytuno
- anghytuno
- dim barn

Os gwnaethoch ateb 'anghytuno', dywedwch pam wrthym

b) Manylion y person a wnaeth ddsbarthu'r gwastraff

- cytuno
- anghytuno
- dim barn

Os gwnaethoch ateb 'anghytuno', dywedwch pam wrthym

c) Manylion y gyrchfan ar gyfer pob symudiad gwastraff, yn cynnwys y math o awdurdodiad sydd gan y gyrchfan

- cytuno
- anghytuno
- dim barn

Os gwnaethoch ateb 'anghytuno', dywedwch pam wrthym

d) Cod Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC)

- cytuno
- anghytuno
- dim barn

Os gwnaethoch ateb 'anghytuno', dywedwch pam wrthym

e) Manylion llwythi a wrthodwyd neu sydd dan gwarantîn

- cytuno
- anghytuno
- dim barn

Os gwnaethoch ateb 'anghytuno', dywedwch pam wrthym

Manylion trin gwastraff

- cytuno
- anghytuno
- dim barn

Os gwnaethoch ateb 'anghytuno', rhowch eich rhesymau

f) Nodi Llygryddion Organig Parhaus (POP)

- cytuno
- anghytuno
- dim barn

Os gwnaethoch ateb 'anghytuno', dywedwch pam wrthym

g) Manylion deunyddiau a chynhyrchion diwedd gwastraff a gynhyrchir

- cytuno
- anghytuno
- dim barn

Os gwnaethoch ateb 'anghytuno', dywedwch pam wrthym

h) Gwybodaeth am gyrchfan deunyddiau neu gynhyrchion diwedd gwastraff

- cytuno
- anghytuno
- dim barn

Os gwnaethoch ateb 'anghytuno', dywedwch pam wrthym

i) Gofynion sy'n benodol i wlad ar gyfer unrhyw ofynion presennol neu yn y dyfodol

- cytuno
- anghytuno
- dim barn

Os gwnaethoch ateb 'anghytuno', dywedwch pam wrthym

C13) Llygryddion Organig Parhaus – faint o wybodaeth am POPs ddylai gael ei chofnodi fel rhan o'r gwasanaeth yn eich barn chi?

- lefel sylfaenol – arwydd mai dim ond POPs y mae gwastraff yn ei gynnwys
- lefel uwch – manylion ychwanegol am y POPs penodol a geir yn y gwastraff a lefel cynnwys y POPs
- arall
- dim barn

Os gwnaethoch ateb (c) rhowch fanylion

C14) Oes unrhyw wybodaeth arall am reoli gwastraff a ddylai gael ei chofnodi fel rhan o'r gwasanaeth olrhain gwastraff digidol newydd?

- oes
- nac oes
- dim barn

Os gwnaethoch ateb 'oes', rhowch fanylion

Cofnodi manylion triniaeth a chynnyrch

Ar hyn o bryd, caiff unrhyw driniaethau neu weithgareddau adfer neu waredu y mae deiliaid gwastraff yn cyflwyno gwastraff iddynt eu cofnodi gan ddefnyddio'r Cod D neu R mwyaf priodol fel y'i nodir mewn deddfwriaeth trwyddedu gwastraff berthnasol¹⁴.

Rydym yn ystyried y ffordd orau o gofnodi triniaethau adfer a dulliau gwaredu gwastraff fel rhan o'r gwasanaeth olrhain gwastraff newydd, a hoffem gael eich barn.

C15) Ydych chi'n gyfarwydd â'r costau D ac R presennol?

- ydw
- nac ydw
- ddim yn gymwys i chi

C16) Ydych chi o'r farn bod codau D ac R yn hawdd i'w cymhwyso?

- ydw
- nac ydw
- ddim yn gymwys i chi

Os gwnaethoch ateb 'nac ydw', dywedwch wrthym pam nad ydynt yn hawdd i'w cymhwyso

C17) Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ar sut y dylid cofnodi gweithgareddau adfer neu waredu fel rhan o'r gwasanaeth olrhain gwastraff?

- oes
- nac oes

Os gwnaethoch ateb 'oes', rhowch fanylion

¹⁴ Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 ar gyfer Cymru a Lloegr, Rheoliadau Trwyddedu Rheoli Gwastraff (yr Alban) 2011 ar gyfer yr Alban, a Rheoliadau Trwyddedu Rheoli Gwastraff (Gogledd Iwerddon) 2003 ar gyfer Gogledd Iwerddon

C18) Deunyddiau neu gynhyrchion diwedd gwastraff – ydych chi'n defnyddio unrhyw godau neu ddisgrifiadau safonol presennol i gofnodi cynhyrchion diwedd gwastraff a gynhyrchir o wastraff?

- ydw
- nac ydw

Os gwnaethoch ateb 'ydw', rhowch fanylion

Rheoliadau Nwyddau Peryglus

Yng Nghymru a Lloegr, mae nodiadau cludo gwastraff yn cynnwys adran ar hyn o bryd i gofnodi gwybodaeth sydd ei hangen o dan y Rheoliadau Nwyddau Peryglus¹⁵. Yng Ngogledd Iwerddon mae angen Nodyn Nwyddau Peryglus ar wahân. Mae deddfwriaeth yn caniatáu darparu'r wybodaeth ofynnol ar ffurf ddigidol, ar yr amod bod y wybodaeth yn cael ei chyflwyno ac ar gael adeg cludo'r gwastraff.

Gellid defnyddio'r gwasanaeth olrhain gwastraff i gofnodi gwybodaeth am nwyddau peryglus, ar yr amod bod y wybodaeth wedi'i chofnodi cyn y symudiad, ond hwyrach y byddai'n well gan gludwyr ddefnyddio dulliau amgen eraill neu systemau sydd ganddynt eisoes.

C19) Ydych chi'n cludo gwastraff peryglus?

- ydw
- nac ydw

C20) Sut rydych yn cofnodi gwybodaeth am nwyddau peryglus ar hyn o bryd?

- cofnod papur
- cofnod digidol
- y ddau
- ddim yn berthnasol

C21) Yn eich barn chi, ble ddylai gwybodaeth sy'n dangos cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Nwyddau Peryglus o ran symud gwastraff gael ei chofnodi?

- yn y gwasanaeth olrhain gwastraff newydd
- rhywle arall
- dim barn.

Os gwnaethoch ateb 'rhywle arall', rhowch fanylion

¹⁵ Rheoliadau Cludo Nwyddau Peryglus a Defnyddio Offer Pwysedd Cludadwy 2009

Hierarchaeth wastraff

Mae deddfwriaeth ledled y DU¹⁶ yn gosod dyletswydd ar ddeiliaid gwastraff i gymryd pob mesur sy'n rhesymol o dan yr amgylchiadau i gymhwyso'r hierarchaeth wastraff at drosglwyddo gwastraff. Mae'r hierarchaeth yn cynnwys 5 cam gweithredu a all gael eu cymryd o ran gwastraff yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:

- atal
- paratoi i ailddenyddio
- ailgylchu
- ffyrdd eraill o adfer, er enghraifft, ar gyfer adfer ynni
- gwaredu

Ledled y DU, mae nodiadau trosglwyddo gwastraff a nodiadau cludo gwastraff peryglus yn wahanol o ran cynnwys gofynion sy'n gysylltiedig â'r hierarchaeth wastraff. Byddai modd cynnwys maes fel rhan o'r gwasanaeth olrhain gwastraff digidol newydd i ddefnyddwyr ddynodi cydymffurfiaeth ag elfennau hierarchaeth wastraff y Cod Ymarfer Dyletswydd Gofal cymwys. Byddai hyn yn sicrhau cysondeb ledled y DU, ond hoffem weld a oes ffyrdd mwy effeithiol o hyrwyddo ac annog cymhwyso'r hierarchaeth wastraff ymhlith pob deiliad gwastraff (cynhyrchwyr, cludwyr, broceriaid, mewnforwyr, gweithredwyr safleoedd gwastraff ac ati).

C22) Os ydych yn cynhyrchu, yn rheoli neu'n trin gwastraff mewn unrhyw ffordd, oeddech chi'n ymwybodol o'ch dyletswydd i gymhwyso'r hierarchaeth wastraff cyn darllen yr ymgynghoriad hwn?

- oeddwn
- nac oeddwn
- ddim yn berthnasol

C23) Yn eich barn chi, a ddylai deiliaid gwastraff, gan gynnwys cynhyrchwyr, gofnodi eu cydymffurfiaeth â chymhwyso'r hierarchaeth wastraff fel rhan o'r gwasanaeth Olrhain Gwastraff?

- dylent
- na ddylent
- dim barn

Os gwnaethoch ateb 'dylent', dywedwch wrthym sut y dylid gwneud hyn yn eich barn chi
Os gwnaethoch ateb 'na ddylent', dywedwch wrthym sut y dylid dangos hyn yn eich barn chi

¹⁶ Yng Nghymru a Lloegr dyma Reoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011, yng Ngogledd Iwerddon Rheoliadau Gwastraff (Gogledd Iwerddon) 2011 ac yn yr Alban Adran 34(2A) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990

Ffyrdd o roi gwybodaeth

Rydym yn awyddus i sicrhau y gall pawb sydd angen cofnodi gwybodaeth ar y gwasanaeth olrhain gwastraff wneud hynny'n hawdd, heb amharu fawr ddim ar eu ffyrdd presennol o weithio.

Felly, bwriadwn ddatblygu gwasanaeth (i siaradwyr Cymraeg a Saesneg) a fydd yn fodd i nodi gwybodaeth am wastraff mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan alluogi gweithredwyr i barhau i ddefnyddio eu systemau eu hunain lle y bo'n bosibl.

Yn seiliedig ar ein hymchwil ymhlith defnyddwyr, rydym wedi nodi'r gofynion canlynol o ran opsiynau cofnodi data:

- a) Teipio'r cofnodion â llaw - naill ai drwy'r ffurflen ar-lein neu ap a ddarperir gan y Gwasanaeth Olrhain Gwastraff.
- b) Lanlwytho data o daenlenni sy'n bodoli eisoes – lle y caiff cofnodion gwastraff eu cadw mewn taenlenni sy'n bodoli eisoes, gallai'r data hyn gael eu copïo neu eu trosglwyddo i daenlen safonol wedi'i darparu gan y Gwasanaeth Olrhain Gwastraff a fyddai wedyn yn cael eu lanlwytho i wefan y gwasanaeth.
- c) Lanlwytho data o feddalwedd olrhain gwastraff sy'n bodoli eisoes drwy daenlen - gallai data mewn meddalwedd olrhain gwastraff sy'n bodoli eisoes* gael eu hallforio i daenlen safonol wedi'i darparu gan y Gwasanaeth Olrhain Gwastraff a fyddai wedyn yn cael eu lanlwytho i wefan y gwasanaeth.
- d) Trosglwyddo data yn uniongyrchol o feddalwedd olrhain gwastraff (neu drwy ddefnyddio codau bar a chodau QR) i'r Gwasanaeth Olrhain Gwastraff – gallai data mewn meddalwedd olrhain gwastraff sy'n bodoli eisoes* gael eu trosglwyddo'n uniongyrchol i'r Gwasanaeth Olrhain Gwastraff (heb ddefnyddio taenlen) drwy Rhyngwyneb Rhaglennu Cymwysiadau (API) sy'n galluogi dwy raglen meddalwedd i rannu data'n uniongyrchol. Byddai API hefyd yn galluogi cofnodi data drwy sganio tagiau neu godau digidol, megis codau QR.

*Gallai meddalwedd sy'n bodoli eisoes fod yn ap COTS (masnachol oddi ar y silff) neu'n ap pwrpasol sydd wedi'i ddatblygu gennych chi neu sydd wedi'i ddatblygu ar eich rhan.

Gall desg gymorth (sydd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg) gynorthwyo defnyddwyr sy'n ei chael hi'n anodd cofnodi'r wybodaeth angenrheidiol ar y system.

Mae safonau data priodol ac ymarferol, er enghraifft, fformatau cyfeiriadau neu ddisgrifiadau gwastraff safonol ac ati yn bwysig i sicrhau ansawdd a chysondeb gwybodaeth, prosesau cofnodi a gwaith dadansoddi data, a lle gall awtolenwi gwybodaeth benodol fod yn briodol. Bwriadwn weithio gydag aelodau o'r panel defnyddwyr i ddatblygu safon data agored gyson ar gyfer cofnodi'r wybodaeth sydd ei hangen fel rhan o'r gwasanaeth olrhain gwastraff.

C24) Os yw'n debygol y bydd angen i chi roi data yn y gwasanaeth olrhain gwastraff, pa un o'r opsiynau fydddech chi'n ei ddefnyddio ar gyfer y mwyafrif o'ch cofnodion data?

- a) cofnod â llaw
- b) lanlwytho data o gofnodion taenlenni sy'n bodoli eisoes ar daenlen safonol gwasanaeth olrhain gwastraff
- c) lanlwytho data o feddalwedd olrhain gwastraff sy'n bodoli sieos i daenlen safonol gwasanaeth olrhain gwastraff
- d) lanlwytho data yn uniongyrchol drwy ryngwyneb rhaglennu cymwysiadau (API)
- e) rhywbeth arall
- f) dim barn

Os gwnaethoch ateb 'rhywbeth arall', rhowch fanylion

C25) Wrth gofnodi data ar eich systemau presennol, ydych chi'n defnyddio unrhyw fath o safon data?

- ydw
- nac ydw

Os gwnaethoch ateb 'ydw', dywedwch wrthym beth yw'r safonau data hyn

Pryd mae'n rhaid cofnodi gwybodaeth

Ein nod yw bod yr holl symudiadau a throsglwyddiadau gwastraff (heblaw mewn rhai achosion lle ceir gofynion rhaghysbysu presennol) yn cael eu cofnodi fel rhan o'r gwasanaeth olrhain gwastraff mewn amser real sy'n golygu y caiff gwybodaeth ei chofnodi ar y gwasanaeth pan fydd gwastraff yn cael ei symud o un man neu berson i'r llall.

Mae'n debygol, yn y diwydiant gwastraff, y bydd rhai busnesau lle mae proses gofnodi amser real yn addas iddynt, ond yn achos eraill gall gymryd rhagor o amser i wneud y newidiadau sydd eu hangen er mwyn olrhain gwastraff mewn amser real fel rhan o'u prosesau busnes.

Hefyd, gall fod yn haws symud i olrhain gwastraff mewn amser real ar gyfer rhai mathau o wastraff, er enghraifft ar gyfer gwastraff peryglus, gan fod gofynion cyfredol ar gyfer cwblhau dogfennaeth rheoli gwastraff yn debycach i gofnodi 'amser real'.

Byddai llawer o fuddiannau i gofnodi amser real o ran gwella gallu'r rheoleiddiwr i fonitro'r sawl sy'n cyflawni gweithgareddau anghyfreithlon a chymryd camau gorfodi yn eu herbyn yn effeithiol drwy leihau'r cyfleoedd i drin data'n fwriadol, ei alluogi i fonitro safleoedd a gweithredwyr sy'n destun ymchwiliad, a rhoi'r wybodaeth iddo gymryd camau er mwyn atal gweithgarwch anghyfreithlon yn y lle cyntaf.

Fodd bynnag, mae'r diwydiant wedi dweud wrthym, pe byddem yn cyflwyno system orfodol o olrhain gwastraff mewn amser real yn rhy fuan, y gallai fod effaith niweidiol ar ansawdd y data a fewnbynnir am fod llai o allu i sicrhau ansawdd y data cyn eu cofnodi.

C26) Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n huchelgais i gofnodi symudiadau a throsglwyddiadau gwastraff mewn amser real?

- cytuno
- anghytuno
- dim barn

Os gwnaethoch ateb 'anghytuno', dywedwch pam

C27) Ar gyfer y mathau canlynol o symudiadau neu drosglwyddiadau gwastraff, faint o amser y byddai ei angen arnoch yn eich barn chi i newid i system gofnodi amser real?

Tabl 2 – amser sydd ei angen i newid i system gofnodi amser real


Symud neu drosglwyddo...	Llai na blwyddyn	Rhwng 1 a 3 mlynedd	Mwy na 3 mlynedd	Ddim yn berthnasol
Gwastraff Peryglus				
Gwastraff nad yw'n beryglus				
Mewnforion neu allforion Gwastraff y Rhestr Werdd				

C28) Beth yw'r prif rwystrau neu gymhellion fydd yn dylanwadu ar yr amser mae'n ei gymryd i chi newid i system gofnodi amser real?

O ystyried yr uchod, rydym yn tybio, pan fydd y gwasanaeth olrhain gwastraff yn mynd yn fyw, y bydd cymysgedd o ddefnyddwyr. Rhai a fydd yn gallu ac yn dymuno cofnodi gwybodaeth mewn amser real a rhai fydd angen amser i newid i gofnodi gwybodaeth mewn amser real.

Felly, rydym yn bwriadu rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i bob defnyddiwr o ran pryd y bydd angen i wybodaeth gael ei chofnodi ar y system yn ystod cyfnod pontio am gyfnod i'w bennu a lywir gan ymatebion i'r cwestiwn blaenorol.

Fodd bynnag, mae heriau ynghlwm wrth y fath hyblygrwydd o ran y ffordd y gallwn sicrhau y gall y gwasanaeth olrhain weithio mewn ffordd ymarferol fel y dangosir yn y senario isod:



Yn y senario hon rydym yn tybio:

- bydd gan bob symudiad gwastraff rhwng cynhyrchwr gwastraff a safle sy'n derbyn gwastraff ddynodydd unigryw a gynhyrchir gan y gwasanaeth olrhain gwastraff,
- bydd y cludwr gwastraff yn cofnodi gwybodaeth ar y gwasanaeth olrhain gwastraff ar ran y cynhyrchwr gwastraff.

Os bydd y cludwr gwastraff nad yw'n gweithredu gan ddefnyddio system gofnodi amser real yn mynd â'r gwastraff a gesglir oddi wrth y cynhyrchwr i'r safle derbyn, ni fydd dynodydd unigryw yn gysylltiedig ag ef eto. Bydd hyn yn rhwystro'r safle sy'n derbyn gwastraff sydd am weithredu a chofnodi gwybodaeth am y gwastraff yn dod i law mewn amser real.

Oni fydd angen rhyw fath o gofnod papur o hyd i fynd gyda'r gwastraff ym mhob achos (ar gyfer gwastraff a symudir o dan reolaethau Gwastraff y Rhestr Werdd bydd angen i gopi papur o'r cofnod fynd gyda'r gwastraff o hyd) yna ni all y safle derbyn gynnal gwiriadau digonol ynghylch natur y gwastraff nac o ble y daeth, am na fydd y wybodaeth hon yn mynd gyda'r gwastraff.

Bydd hyn hefyd yn effeithio ar allu'r rheoleiddiwr i gynnal gwiriadau cydymffurfio 'ar lawr gwlad' neu hyd oes effeithiol. Bydd modd i wastraff gael ei gamreoli neu ei 'gollu' o hyd.

Felly rydym yn cynnig y bydd angen rhywfaint o wybodaeth am yr holl symudiadau a throsglwyddiadau gwastraff cyn symud gwastraff, gyda phartïon gwahanol yn cadarnhau neu'n cyflwyno manylion pellach fel sy'n briodol yn ddiweddarach.

Rhoddir manylion am y prosesau arfaethedig ar gyfer cofnodi gwybodaeth am fathau penodol o symudiadau gwastraff yn:

- [Atodiad A](#) ar gyfer symudiadau gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus
- [Atodiad B](#) ar gyfer allforion Gwastraff y Rhestr Werdd
- [Atodiad C](#) ar gyfer mewnforion Gwastraff y Rhestr Werdd

Nodwch y bydd gofynion o dan reoliadau a wneir i gyflwyno gwasanaeth olrhain gwastraff digidol gorfodol ond yn gymwys i'r rhai sy'n gweithredu yn y DU, felly ni fydd y rhai y tu allan i'r DU, sydd ynghlwm wrth fewnforion neu allforion Gwastraff y Rhestr Werdd, yn gorfod bodloni'r gofynion.

C29) Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r broses arfaethedig gyffredinol a nodir yn:

Atodiad A ar gyfer symudiadau gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus?

- cytuno
- anghytuno
- dim barn

Os gwnaethoch ateb 'anghytuno', dywedwch pam wrthym

Atodiad B ar gyfer allforion Gwastraff y Rhestr Werdd?

- cytuno
- anghytuno
- dim barn

Os gwnaethoch ateb 'anghytuno', dywedwch pam wrthym

Atodiad C ar gyfer mewnforyn Gwastraff y Rhestr Werdd?

- cytuno
- anghytuno
- dim barn

Os gwnaethoch ateb 'anghytuno', dywedwch pam wrthym

C30) Faint o amser cyn symud gwastraff y dylai gwybodaeth a restrir o dan Gam 1 ym mhob un o'r prosesau gael ei chofnodi ar y gwasanaeth olrhain gwastraff?

Atodiad A symudiadau gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus

- unrhyw bryd cyn symud y gwastraff
- o leiaf 1 diwrnod ymlaen llaw
- o leiaf 3 diwrnod ymlaen llaw
- arall (rhowch fanylion)

Atodiad B allforyn Gwastraff y Rhestr Werdd

- unrhyw bryd cyn symud y gwastraff
- o leiaf 1 diwrnod ymlaen llaw
- o leiaf 3 diwrnod ymlaen llaw
- arall (rhowch fanylion)

Atodiad C mewnforyn Gwastraff y Rhestr Werdd

- unrhyw bryd cyn symud y gwastraff
- o leiaf 1 diwrnod ymlaen llaw
- o leiaf 3 diwrnod ymlaen llaw
- arall (rhowch fanylion)

C31) Pwy ddylai fod yn gyfrifol am gofnodi'r wybodaeth a restrir o dan Gam 1 yn Atodiad A cyn symud gwastraff peryglus neu nad yw'n beryglus?

- cynhyrchwr gwastraff
- cludwr gwastraff
- brocer neu werthwyr gwastraff
- unrhyw un o'r uchod
- arall

Os gwnaethoch ateb 'arall', rhowch fanylion

C32) O fewn pa derfyn amser y dylai cludwyr gwastraff gofnodi'r wybodaeth fel sy'n ofynnol yng Ngham 2 astodiad A a Cham 4 ar gyfer Atodiad B?

Atodiad A symudiadau gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus

- 24 awr
- 48 awr
- 3 diwrnod gwaith
- 1 wythnos
- arall

Os gwnaethoch ateb 'arall', rhowch fanylion

Atodiad B allforion Gwastraff y Rhestr Werdd

- 24 awr
- 48 awr
- 3 diwrnod gwaith
- 1 wythnos
- arall

Os gwnaethoch ateb 'arall', rhowch fanylion

C33) Yn eich barn chi, a ddylai fod unrhyw wahaniaeth yn y gofynion yn dibynnu ai gwastraff peryglus neu wastraff nad yw'n beryglus sy'n cael ei drafod?

- dylai
- na ddylai
- dim barn

Os gwnaethoch ateb 'oes', rhowch fanylion

Safleoedd sy'n derbyn gwastraff

Lle y caiff gwastraff peryglus neu wastraff nad yw'n beryglus ei gludo i safle derbyn o dan y prosesau a nodir yn Atodiad A (cam 3) neu Atodiad C (cam 4), bydd angen i weithredwyr y safleoedd hyn gofnodi gwybodaeth fel rhan o'r gwasanaeth olrhain gwastraff am y canlynol:

- a) y gwastraff a gludir i'w safleoedd
- b) y broses o waredu, adfer, paratoi i aildddefnyddio neu drin gwastraff, gan gynnwys gwybodaeth am unrhyw ddeunyddiau neu gynhyrchion diwedd gwastraff a gynhyrchir ohono (gweler yr adran ['Gwybodaeth a gofnodir fel rhan o'r gwasanaeth olrhain gwastraff'](#))

C34) O fewn pa gyfnod o amser y dylai fod angen i safleoedd sy'n derbyn gwastraff roi'r wybodaeth hon?

- a) y gwastraff a gludir i'w safleoedd:
 - 24 Awr
 - 48 awr
 - 3 diwrnod gwaith
 - 1 Wythnos
 - arall
 - dim barn

Os gwnaethoch ateb 'arall', rhowch fanylion

- b) y broses o waredu, adfer, paratoi i aildddefnyddio neu drin gwastraff, gan gynnwys gwybodaeth am unrhyw ddeunyddiau neu gynhyrchion diwedd gwastraff a gynhyrchir ohono:
 - 24 Awr
 - 48 awr
 - 3 diwrnod gwaith
 - 1 wythnos

- arall
- dim barn

Os gwnaethoch ateb 'arall', rhowch fanylion

Tocynnau tymor

Lle byddai symudiadau a throsglwyddiadau gwastraff nad ydynt yn beryglus yn cael eu cofnodi gan ddefnyddio tocyn tymor ar hyn o bryd, rydym yn ystyried y ffordd orau o ymgorffori'r rhain fel rhan o'r gwasanaeth olrhain gwastraff newydd.

Gallai'r opsiynau ar gyfer hyn gynnwys:

- ei gwneud yn ofynnol i lanlwytho neu gofnodi cytundeb wedi'i lofnodi a chytuno gan y ddau barti sydd ynghlwm wrth y gyfres o symudiadau a ddiweddarir bob blwyddyn os oes angen gwneud hynny o hyd a/neu
- y gallu i glonio cofnod gwasanaeth olrhain gwastraff blaenorol a diweddarau'r manylion dyddiad ac amser ar gyfer symudiadau neu drosglwyddiadau unigol

C35) Oes gennych chi unrhyw sylwadau am y cynnig hwn neu sut yr hoffech weld y symudiadau hyn yn cael eu hymgorffori fel rhan o'r gwasanaeth olrhain gwastraff?

- oes,
- nac oes

Os gwnaethoch ateb 'Oes', rhowch fanylion

Rolau a chyfrifoldebau

Nodir rolau a chyfrifoldebau presennol y rhai sy'n trafod gwastraff yn y ddeddfwriaeth gwastraff berthnasol¹⁷ a'r Codau Ymarfer Dyletswydd Gofal ar gyfer pob un o wledydd y DU. Amlinellir rolau a chyfrifoldebau'r mathau gwahanol o bobl sydd ynghlwm wrth gynhyrchu a rheoli gwastraff yn cynnwys cymhyrchwyr, cludwyr, rheolwyr, broceriaid, gwerthwyr gwastraff a deiliaid tai.

Fodd bynnag, mae'r systemau presennol ar gyfer trosglwyddiadau neu symudiadau gwastraff yn peri heriau i rai partïon yn y gadwyn wastraff, yn enwedig cynhyrchwyr, o ran gallu dangos cydymffurfiaeth â'u dyletswydd gofal.

Pan fydd y gwastraff wedi gadael eu safle, mae'n anodd iawn i gynhyrchwyr gwastraff gael unrhyw dystiolaeth bellach am y ffordd y mae'r gwastraff wedi'i drafod neu ei drin ar ôl

¹⁷ Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban a Gorchymyn Gwastraff a Thir Halogedig (Gogledd Iwerddon) 1997 ar gyfer Gogledd Iwerddon.

hynny. Yn y mwyafrif o achosion, ni fyddant hyd yn oed yn sicr bod y gwastraff wedi cyrraedd y cyfleuster a fwriadwyd.

Cynigiwn, yn dilyn cyflwyno proses orfodol o olrhain gwastraff yn ddigidol, y prif newidiadau i rolau a chyfrifoldebau deiliaid gwastraff a nodir yn Nhabl 3 isod. Nid yw'r rhain yn gymwys i ddeiliaid tai.

Tabl 3 – Rolau a chyfrifoldebau olrhain gwastraff i ddeiliaid gwastraff

Rôl	Cyfrifoldebau
Pob un	<p>Rhaid cofrestru ar gyfer y gwasanaeth olrhain gwastraff (naill ai eu hunain neu drwy ddefnyddiwr cofrestredig arall)</p> <p>Rhaid dilyn y prosesau gofynnol (lle y bo'n gymwys) ar gyfer cofnodi unrhyw wastraff a wrthodir fel rhan o'r gwasanaeth olrhain gwastraff</p> <p>Rhaid dilyn unrhyw brosesau gofynnol ar gyfer cofnodi cydymffurfiaeth â'r hierarchaeth wastraff</p> <p>Rhaid gwneud unrhyw ddiweddariadau angenrheidiol i'r cofnod gwasanaeth olrhain gwastraff er mwyn sicrhau bod cofnod cyflawn a chywir o'r holl wastraff perthnasol a waredir/a gludir/a dderbynnir</p>
Cynhyrchwyr, cludwyr, broceriaid neu werthwyr gwastraff (yn cynnwys y rhai sy'n trefnu cludo symudiadau gwastraff y Rhestr Werdd)	<p>Rhaid sicrhau bod cofnod cychwynnol ar gyfer y symudiad gwastraff yn cael ei greu fel rhan o'r gwasanaeth olrhain gwastraff (naill ai eu hunain neu gan drydydd parti) a bod dynodydd unigryw yn cael ei greu (drwy'r gwasanaeth) cyn i wastraff gael ei waredu</p>
Cynhyrchwyr gwastraff yn unig	<p>Oni fydd cynhyrchwyr yn cofnodi gwybodaeth ar y gwasanaeth olrhain gwastraff eu hunain, rhaid iddynt roi'r wybodaeth ganlynol i'r cludwr, y brocer neu'r gwerthwr gwastraff:</p> <ul style="list-style-type: none"> • disgrifiad addas o'r gwastraff i'w galluogi i ddsbarthu'r gwastraff yn ddigonol neu • fanylion am y dosbarthiad(au) gwastraff a phwy wnaeth ei ddsbarthu i'w gofnodi ar y gwasanaeth olrhain gwastraff <p>Rhaid i gynhyrchwyr hefyd ddarparu unrhyw wybodaeth arall sydd ei hangen ar y cludwr, y brocer neu'r gwerthwr gwastraff er mwyn sicrhau y gall cofnod cychwynnol gael ei greu ar y gwasanaeth olrhain gwastraff cyn symud gwastraff</p> <p>Rhaid sicrhau bod cofnodion ar weithgareddau gwastraff ar y safle cynhyrchu yn cael eu gwneud ar y gwasanaeth olrhain gwastraff yn unol â'r gofynion yn yr adran 'Gwybodaeth i'w chofnodi'</p>

Rôl	Cyfrifoldebau
Cludwyr gwastraff yn unig	<p>Rhaid sicrhau bod pob parti sydd ynghlwm wrth symud gwastraff wedi cael ei gofrestru fel rhan o'r gwasanaeth olrhain gwastraff cyn symud unrhyw wastraff (oni fydd yn ddeiliad tai neu'n gweithredu y tu allan i'r DU)</p> <p>Rhaid rhoi dynodydd unigryw ar gyfer symud neu drosglwyddo gwastraff i bob parti dan sylw (gan gynnwys deiliaid tai). Nodwch nad yw hyn yn gymwys i ALLau sy'n casglu gwastraff cartrefi o eiddo domestig</p> <p>Dim ond trosglwyddo gwastraff i safle all ei dderbyn yn gyfreithlon y gellir ei wneud</p>
Broceriaid a gwerthwyr yn unig	<p>Rhaid sicrhau bod pob parti sydd ynghlwm wrth symud gwastraff wedi cael ei gofrestru fel rhan o'r gwasanaeth olrhain gwastraff cyn symud unrhyw wastraff (oni fydd yn ddeiliad tai neu'n gweithredu y tu allan i'r DU)</p> <p>Dim ond trefnu i drosglwyddo gwastraff i safle a all ei dderbyn yn gyfreithlon y gellir ei wneud</p>
Gweithredwyr safleoedd sy'n derbyn gwastraff yn unig	<p>Dim ond gwastraff sydd â dynodydd unigryw (wedi'i gynhyrchu drwy'r gwasanaeth olrhain gwastraff) y gellir ei dderbyn</p> <p>Rhaid sicrhau bod gwastraff fel y mae wedi'i ddisgrifio a bod ganddynt yr hawl neu'r capasiti i'w dderbyn</p> <p>Rhaid sicrhau bod cofnodion yn cael eu gwneud ar y gwasanaeth olrhain gwastraff yn unol â'r gofynion yn yr adran 'gwybodaeth i'w chofnodi'</p> <p>Nodwch os bydd gweithredwr safle sy'n derbyn gwastraff yn anfon gwastraff i safle arall i'w drin ymhellach, neu i'w adfer neu ei waredu, yna tybir rôl cynhyrchwr a rhaid bodloni gofynion cynhyrchwr.</p>

Deiliaid tai

Ni fydd angen i ddeiliaid tai ddefnyddio'r gwasanaeth olrhain gwastraff, bydd angen iddynt barhau i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod eu gwastraff ond yn cael ei drosglwyddo i berson awdurdodedig, fel sy'n digwydd nawr.

Ni ddylai unrhyw wastraff y mae angen i gludwr gwastraff (heblaw awdurdodau lleol) ei symud o eiddo deiliad tai gael ei symud nes i gofnod gael ei greu ar y gwasanaeth olrhain gwastraff gan y cludwr gwastraff a bod dynodwr unigryw wedi'i gymhwyso at symud y gwasanaeth.

Cynhyrchwyr gwastraff

Bydd cynhyrchwyr gwastraff yn dal i fod yn gyfrifol am y ffordd y caiff eu gwastraff ei drafod wedyn ac felly rydym yn cynnig, pan gaiff cofnod ei ddiweddarau neu ei greu ar ran y cludwr gwastraff, y dylai'r cynhyrchwr gadarnhau bod y wybodaeth wedi'i chofnodi.

Mae hyn yn cyfateb i ofynion cyfredol lle mae'n rhaid i gynhyrchwyr neu gludwyr lofnodi nodyn trosglwyddo gwastraff neu nodyn cludo gwastraff peryglus pan gaiff gwastraff ei gasglu.

Mae ffyrdd gwahanol y gallai'r cadarnhad hwn gael ei roi drwy'r gwasanaeth olrhain gwastraff, yn cynnwys:

1. O fewn y gwasanaeth - caiff y cynhyrchwr wybod beth yw dynodydd unigryw cofnod a rhaid iddo ddefnyddio'r gwasanaeth olrhain gwastraff i weld a chadarnhau'r wybodaeth drwy bwyso botwm.
2. Drwy grynodedb wedi'i e-bostio ar gyfer pob cofnod - caiff y cynhyrchwr grynodedb o'r wybodaeth wedi'i chofnodi a gofynnir am lofnod digidol a geir y tu allan i'r gwasanaeth olrhain gwastraff. Yn y cefndir, mae hyn yn cysylltu â'r cofnod olrhain gwastraff ac yn ei ddiweddarau er mwyn nodi cadarnhad y cynhyrchwr.
3. Drwy eithriad - gallai'r cynhyrchwr gael crynodedb cyfnodol o'r symudiadau gwastraff o'i eiddo drwy e-bost (neu drwy'r post i'r rhai sydd wedi'u heithrio'n ddigidol).

Pe byddai cynhyrchwr yn credu bod unrhyw wybodaeth mewn cofnod ar y gwasanaeth olrhain gwastraff yn anghywir, yna byddai dogfennu ei ymdrechion i ddatrys y mater â'r cludwr gwastraff neu wneud ymholiad ar y system yn dynodi cyflawni'r agwedd hon ar ei ddyletswydd gofal.

C36) Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r gofynion arfaethedig ar gyfer pob un o'r rolau yn Nhabl 3?

- a) Gofynion sy'n gyffredin i bawb
- cytuno
 - anghytuno
 - dim barn

Os gwnaethoch ateb 'anghytuno', dywedwch pam wrthym

- b) Gofynion sy'n gyffredin i gynhyrchwyr, cludwyr, broceriaid neu werthwyr gwastraff
- cytuno
 - anghytuno
 - dim barn

Os gwnaethoch ateb 'anghytuno', dywedwch pam wrthym

- c) Gofynion sy'n gymwys i gynhyrchwyr gwastraff yn unig
- cytuno
 - anghytuno
 - dim barn

Os gwnaethoch ateb 'anghytuno', dywedwch pam wrthym

d) Gofynion sy'n gymwys i gludwyr gwastraff yn unig

- cytuno
- anghytuno
- dim barn

Os gwnaethoch ateb 'anghytuno', dywedwch pam wrthym

e) Gofynion sy'n gymwys i froceriaid neu werthwyr yn unig

- cytuno
- anghytuno
- dim barn

Os gwnaethoch ateb 'anghytuno', dywedwch pam wrthym

f) Gofynion sy'n gymwys i weithredwyr safleoedd sy'n derbyn gwastraff yn unig

- cytuno
- anghytuno
- dim barn

Os gwnaethoch ateb 'anghytuno', dywedwch pam wrthym

C37) Sut y dylai fod yn ofynnol i gynhyrchwyr gwastraff 'gadarnhau'r' wybodaeth a gofnodir ar gyfer eu symudiadau gwastraff?

- opsiwn 1 o fewn y gwasanaeth olrhain gwastraff
- opsiwn 2 drwy grynodedb wedi'i e-bostio
- opsiwn 3 drwy esemptiad
- ffordd arall
- dim barn

Os gwnaethoch ateb 'ffordd arall', rhwch fanylion

Gofynion eithrio'n ddigidol

Yn y DU, mae cyfran o unigolion yr ystyrir eu bod 'wedi'u heithrio'n ddigidol', ac mae pwerau yn Neddf yr Amgylchedd 2021 sy'n galluogi cyflwyno proses olrhain gwastraff yn ddigidol yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheoliadau gynnwys esemptiad ar gyfer unigolion sydd wedi'u heithrio'n ddigidol¹⁸ rhag unrhyw ofyniad a fyddai'n golygu defnyddio dulliau cyfathrebu electronig neu gadw cofnodion electronig. Fodd bynnag, gall y rheoliadau osod gofynion amgen ar yr unigolion hynny.

Rydym yn cynnig proses amgen ar gyfer pobl sydd wedi'u heithrio'n ddigidol i'w galluogi i ddarparu eu gwybodaeth mewn modd analog, ac i'r wybodaeth hon gael ei chofnodi ar y gwasanaeth olrhain gwastraff (gan y rheoleiddiwr er enghraifft) er mwyn sicrhau bod cofnod llawn o symudiadau a gweithgareddau gwastraff. Byddai'r darpariaethau amgen hyn yn ddeublyg:

- 1) Byddai gwasanaeth ffôn yn cael ei ddarparu fel bod modd i bobl sydd wedi'u heithrio'n ddigidol gofrestru ar gyfer y gwasanaeth olrhain gwastraff a rhoi'r wybodaeth ofynnol cyn symud gwastraff (fel y nodir yn ['Pryd mae'n rhaid cofnodi gwybodaeth'](#)) er mwyn cael dynodydd unigryw ar gyfer y symudiad hwnnw.
- 2) Byddai gwasanaeth post yn cael ei ddarparu er mwyn galluogi unrhyw wybodaeth a oedd yn weddill am drosglwyddiad i gael ei chyflwyno ac i safleoedd sy'n derbyn gwastraff roi'r wybodaeth fanwl am y ffordd y mae gwastraff wedi cael ei drin (fel yn yr adran ['Gwybodaeth a gofnodir fel rhan o'r gwasanaeth olrhain gwastraff'](#)).

Byddai angen i unrhyw drosglwyddiadau gwastraff neu ddeunyddiau neu gynhyrchion diwedd gwastraff dilynol o safle derbyn wedi'i weithredu gan unigolyn wedi'i eithrio'n ddigidol gael eu cofnodi dros y ffôn fel uchod.

Mae'r model hwn yn fodd i'r wybodaeth sy'n fwy hanfodol o ran amser am symudiad gwastraff gael ei nodi'n gyflym dros y ffôn ond mae'n galluogi i wybodaeth arall gael ei chyflwyno'n arafach.

Bydd angen rhoi rhai rheolaethau ar waith ynghylch cofrestru unigolion sydd wedi'u heithrio'n ddigidol hefyd er mwyn sicrhau mai dim ond y rhai sydd wedi'u heithrio'n ddigidol go iawn a gaiff eu cynnwys. Gallai camddefnyddio'r darpariaethau amgen hyn arwain at ddata anghywir neu anghyflawn yn y gwasanaeth olrhain gwastraff.

¹⁸ Fe'u diffinnir yn Neddf yr Amgylchedd 2021 fel unigolyn a) sy'n perthyn i urdd neu gymdeithas grefyddol nad yw ei gredoau'n cyd-fynd â defnyddio dulliau cyfathrebu electronig na chadw cofnodion electronig b) nad yw'n rhesymol ymarferol iddo ddefnyddio dulliau cyfathrebu electronig na chadw cofnodion electronig am unrhyw reswm (yn cynnwys oedran, anabled, neu leoliad)

Felly, yr egwyddorion cyffredinol y byddwn yn eu mabwysiadu yw:

- bydd angen i unigolion sydd wedi'u heithrio'n ddigidol ddarparu'r un wybodaeth â defnyddwyr eraill y gwasanaeth olrhain gwastraff
- bydd angen i unigolion sydd wedi'u heithrio'n ddigidol gofrestru fel defnyddiwr sydd wedi'i eithrio'n ddigidol drwy'r dull amgen a nodir, a rhoi manylion unrhyw ganiatadau safle gwastraff perthnasol a ddelir – yna caiff y wybodaeth hon ei lanlwytho i'r gwasanaeth olrhain gwastraff (gan y rheoleiddiwr er enghraifft) fel bod y manylion ar gael i ddefnyddwyr eraill y gwasanaeth olrhain gwastraff eu dewis pan fo angen
- bydd angen i'r rhai sy'n cofrestru fel defnyddiwr sydd wedi'i eithrio'n ddigidol ddarparu gwybodaeth a thystiolaeth benodol ynghylch y rheswm dros hynny

Bydd ffordd o adnabod defnyddwyr sydd wedi'u heithrio'n ddigidol fel rhan o'r gwasanaeth er enghraifft drwy ryw fath o farciwr fel y gall rheoleiddwyr ddisgwyl i wybodaeth gael ei darparu gan y defnyddiwr hwnnw mewn modd amgen a galluogi eraill yn y gadwyn i barhau i ychwanegu eu gwybodaeth am symud neu drosglwyddo gwastraff

C38) Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r egwyddorion cyffredinol fel y'u nodir uchod ynghylch unigolion sydd wedi'u heithrio'n ddigidol yn destun gofynion olrhain gwastraff?

- cytuno
- anghytuno
- dim barn

Os gwnaethoch ateb, 'Anghytuno', dywedwch pam wrthym

C39) Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r dulliau amgen arfaethedig i unigolion sydd wedi'u heithrio'n ddigidol ddarparu'r wybodaeth ofynnol?

- cytuno
- anghytuno
- dim barn

Os gwnaethoch ateb, 'Anghytuno', dywedwch pam wrthym

C40) Faint o amser y dylai defnyddwyr sydd wedi'u heithrio'n ddigidol ei gael i ddarparu'r wybodaeth sy'n ofynnol drwy'r post yn y darpariaethau hyn? Er enghraifft, gwybodaeth wedi'i diweddarau am symud gwastraff neu fanylion trin gwastraff neu gynhyrchu deunyddiau o wastraff.

- 7 Diwrnod
- 14 Diwrnod
- 1 mis
- arall
- dim barn

Os gwnaethoch ateb 'arall', rhwch fanylion

Cadw data, cael gafael ar ddata a chyfrinachedd data

Bydd gwasanaeth olrhain gwastraff newydd yn cynnwys manylion am y canlynol:

- enwau a chyfeiriadau cynhyrchwyr gwastraff – cartrefi a masnachol
- enwau a chyfeiriadau busnes (neu fanylion personol yn achos unig fasnachwyr) gweithredwyr y diwydiant gwastraff yn cynnwys cludwyr, broceriaid a gwerthwyr gwastraff, a busnesau sy'n gweithredu safleoedd derbyn a phrosesu gwastraff
- enwau staff cwmni gwastraff, er enghraifft, rheolwyr safle a gyrwyr
- gwybodaeth am y trwyddedau gwastraff neu'r awdurdodiadau gwastraff a ddelir gan weithredwyr y diwydiant gwastraff er enghraifft, esemptiadau gwastraff, trwyddedau, a manylion cofrestru cludwyr
- symudiadau gwastraff rhwng deiliaid penodol, yn cynnwys y dyddiad a'r amser, disgrifiad o'r gwastraff a'r sawl sydd wedi bod ynghlwm wrth symud neu drosglwyddo'r gwastraff
- sut y caiff gwastraff ei drin ar safle er enghraifft, pryd a sut y caiff ei waredu, ei adfer neu pa brosesau trin y mae'n destun iddynt
- unrhyw gynhyrchion neu ddeunyddiau a gynhyrchir o wastraff ac i ble y maent yn mynd - yn gyfyngedig i'r gyrchfan nesaf yn unig

Bydd gan y grwpiau canlynol lefelau gwahanol o fynediad at y gwasanaeth olrhain gwastraff a bydd yr hyn y gallant ei weld yn dibynnu ar eu lefel mynediad a nodir yn Nhabl 4.

Tabl 4 – y mathau arfaethedig o fynediad at wybodaeth ar gyfer y gwasanaeth olrhain gwastraff

Defnyddiwr gwasanaeth	Lefel y mynediad at wybodaeth
Swyddogion perthnasol y llywodraeth a rheoleiddwyr amgylcheddol	Gwybodaeth berthnasol ar y system olrhain gwastraff am symudiadau gwastraff yn y wlad dan sylw a lle mae unrhyw symudiadau wedi mynd i mewn neu allan o'r wlad honno.
Awdurdodau treth	Gwybodaeth berthnasol am waredu gwastraff ar safleoedd tirlenwi. Ystyrir darparu mynediad uniongyrchol at y wybodaeth hon ar y system neu drwy'r rheoleiddwyr amgylcheddol.
Gweinyddwyr cynllun gwastraff	Gwybodaeth sy'n berthnasol i'r cynllun dan sylw, er enghraifft ar gyfer Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr, mae'r wybodaeth berthnasol yn debygol o gynnwys gwybodaeth am dunelli a mathau o wastraff penodol a gaiff ei drin gan awdurdodau lleol a safleoedd sy'n derbyn gwastraff.

Defnyddiwr gwasanaeth	Lefel y mynediad at wybodaeth
Awdurdodau lleol	Gwybodaeth am y gwastraff a reolir gan awdurdodau lleol a gynhyrchir, a gludir, neu a waredir neu a adferir yn eu hardal awdurdod lleol. Lle y caiff gwastraff wedi'i gynhyrchu mewn awdurdod penodol ei drosglwyddo i leoliad y tu allan i'r ardal awdurdod lleol honno, gall yr awdurdod lleol gwreiddiol weld tynged y gwastraff hwnnw.
Busnesau sydd ynghlwm wrth symudiadau gwastraff – cynhyrchwyr gwastraff masnachol, cludwyr, broceriaid, gwerthwyr, safleoedd sy'n derbyn gwastraff.	<p>Gallant weld a golygu cofnodion sy'n berthnasol iddynt.</p> <p>Gall cynhyrchwyr a chlodwyr weld manylion y symudiadau neu drosglwyddiadau gwastraff hyd at y pwynt y caiff y gwastraff ei dderbyn ar y safle derbyn cyntaf.</p> <p>Byddwn yn ymchwilio i ffyrdd y gall 'tynged' llwyth penodol o wastraff gael ei chofnodi neu ei phennu, a byddem yn ceisio gallu rhoi mwy o gipolwg i gynhyrchwyr gwastraff o hyn er mwyn meithrin eu dealltwriaeth a gwella eu prosesau gwneud penderfyniadau ynghylch eu gwastraff.</p> <p>Bydd safleoedd sy'n derbyn gwastraff yn cael mwy o fynediad er mwyn cofnodi a gweld data ynghylch trin, adfer neu waredu gwastraff ar eu safle, neu'n ymwneud â chynhyrchu cynhyrchion a deunyddiau o wastraff.</p>
Cynhyrchwyr gwastraff cartrefi	<p>Gallant weld cofnodion sy'n berthnasol iddynt drwy ddynodydd unigryw a roddir gan eu cludwr gwastraff. Gallant weld manylion am y cludwr ac i ble y cafodd y gwastraff ei gludo.</p> <p>Nodwch mai dim ond ar gyfer casgliadau gwastraff a drefnir yn breifat y mae hyn, nid casgliadau gwastraff cartrefi gan yr awdurdod lleol.</p>
Y cyhoedd a phartion â diddordeb	<p>Cynigiwn y dylai fod gan y gwasanaeth olrhain gwastraff ryngwyneb cyhoeddus a fydd yn galluogi defnyddwyr i greu a gweld adroddiadau cryno gan gynnwys gwybodaeth am y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • y mathau o wastraff a gynhyrchir a faint • y mathau o wastraff a gaiff ei drafod neu ei drin gan fathau penodol o safleoedd a faint • tynged gwastraff • tarddiad gwastraff o ran ardal gyffredinol <p>Mae hyn yn debyg i'r wybodaeth sydd eisoes ar gael i'r cyhoedd.¹⁹</p>

¹⁹ Ar gael drwy: [Data.gov.uk 2019 Waste Data Interrogator](https://data.gov.uk), Llywodraeth Cymru – [StatsCymru](https://stats.cymru.gov.uk) ac amgylchedd yr Alban – [environment web](https://environment.wales)

Defnyddiwr gwasanaeth	Lefel y mynediad at wybodaeth
	Drwy'r gwasanaeth newydd byddem hefyd yn ceisio darparu mynediad at wybodaeth am y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • y mathau o gynhyrchion a deunyddiau a gynhyrchir o wastraff a faint

C41) Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno'n gyffredinol â'r lefel arfaethedig o fynediad at wybodaeth ar gyfer pob un o'r mathau gwahanol o ddefnyddwyr a nodir yn Nhabl 4?

- a) Swyddogion perthnasol y Llywodraeth a rheoleiddwyr amgylcheddol
- cytuno
 - anghytuno
 - dim barn

Os gwnaethoch ateb 'anghytuno', dywedwch pam wrthym

- b) Awdurdodau treth
- cytuno
 - anghytuno
 - dim barn

Os gwnaethoch ateb 'anghytuno', dywedwch pam wrthym

- c) Gweinyddwyr cynllun gwastraff
- cytuno
 - anghytuno
 - dim barn

Os gwnaethoch ateb 'anghytuno', dywedwch pam wrthym

- d) Awdurdodau Lleol
- cytuno
 - anghytuno
 - dim barn

Os gwnaethoch ateb 'anghytuno', dywedwch pam wrthym

- e) Busnesau sydd ynghlwm wrth symudiadau gwastraff
- cytuno
 - anghytuno
 - dim barn

Os gwnaethoch ateb 'anghytuno', dywedwch pam wrthym

- f) Cynhyrchwyr a chlodwyr
- cytuno
 - anghytuno
 - dim barn

Os gwnaethoch ateb 'anghytuno', dywedwch pam wrthym

g) Safleoedd sy'n derbyn gwastraff

- cytuno
- anghytuno
- dim barn

Os gwnaethoch ateb 'anghytuno', dywedwch pam wrthym

h) Cynhyrchwyr gwastraff cartrefi

- cytuno
- anghytuno
- dim barn

Os gwnaethoch ateb 'anghytuno', dywedwch pam wrthym

i) Y cyhoedd a phartïon â diddordeb

- cytuno
- anghytuno
- dim barn

Os gwnaethoch ateb 'anghytuno', dywedwch pam wrthym

C42) Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai cynhyrchwyr gwastraff allu gweld gwybodaeth am dynged eu gwastraff?

- cytuno
- anghytuno
- dim barn

Os gwnaethoch ateb 'cytuno', nodwch yr hyn y dylid ei gynnwys yn eich barn chi

Os gwnaethoch ateb 'anghytuno', dywedwch pam wrthym

Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Mae Deddf Diogelu Data 2018 yn rheoli'r ffordd y caiff gwybodaeth bersonol ei defnyddio gan sefydliadau, busnesau neu'r llywodraeth. Dull y DU o roi GDPR y DU ar waith, sy'n gofyn am sail gyfreithlon i gasglu a phrosesu data personol. Yn achos gweithrediad cyffredinol y gwasanaeth olrhain gwastraff, y sail gyfreithlon hon fydd yr angen i brosesu data personol er mwyn cyflawni tasg sydd er budd y cyhoedd. Caiff y data eu storio a'u prosesu'n bennaf er mwyn sicrhau bod cofnod cywir o symudiadau a thriniaethau gwastraff.

I'r rhai fydd yn ychwanegu data personol at y system, y sail gyfreithlon fydd bod angen prosesu er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol y mae'r rheolydd (y sawl sy'n ychwanegu'r data personol at y system) yn ddarostyngedig iddi megis y bydd angen prosesu'r data personol oherwydd bydd rheoliadau olrhain gwastraff fydd yn gwneud hynny'n ofynnol.

Gall rheoleiddwyr brosesu'r data personol o ran monitro cydymffurfiaeth neu i orfodi deddfwriaeth berthnasol. Gall Llywodraeth y DU neu reoleiddwyr hefyd brosesu'r data at

ddiben llunio adroddiadau ar gyfer gwaith dadansoddi ystadegol. Ni fydd yr adroddiadau hyn yn cynnwys gwybodaeth a fyddai'n adnabod pobl.

O ran y rheolydd data fel y'i diffinnir gan GDPR y DU²⁰, byddem yn ystyried pawb sydd â lefel uchel o fynediad at y data fel rheolwyr data. Bydd hyn yn cynnwys adrannau perthnasol y llywodraeth ledled y Deyrnas Unedig, rheoleiddwyr amgylcheddol ar gyfer pob un o'r gwledydd ac awdurdodau lleol.

Y prosesydd data fel y'i diffinnir gan GDPR²¹ fydd prif gyflenwr y gwasanaeth TG byw a fydd yn gweithredu ar ran adrannau perthnasol y llywodraeth ym mhedair gwlad y DU.

Rheoli gwybodaeth sensitif

Gall fod adegau pan ystyrir ei bod yn sensitif cynnwys gwybodaeth am symudiadau gwastraff, er enghraifft lle gall y wybodaeth nodi cyfeiriad lleoliad hynod sensitif neu wybodaeth am weithgareddau mewn lleoliad a allai, o'i ddatgelu, fod yn groes i fuddiannau diogelwch cenedlaethol.

Fel rhan o'r gwasanaeth olrhain gwastraff, bydd modd hepgor gwybodaeth o'r fath ar y sail hon o'r cofnodion gofynnol. Gallai hyn gynnwys yr angen i gysylltu â'r rheoleiddiwr er mwyn ei hysbysu am gofnod a ddylai gael ei reoli'n sensitif a rhoi'r rhesymau dros hynny.

Yna gallai'r rheoleiddiwr godi dynodydd unigryw fel rhan o'r gwasanaeth â gwybodaeth gyfyngedig i fathau o wastraff a chyfeintiau'n unig er mwyn galluogi eraill i lawr y gadwyn i gofnodi eu gwybodaeth.

Byddwn yn profi opsiynau ar gyfer hyn gydag aelodau o'r panel defnyddwyr wrth ddatblygu'r gwasanaeth.

Cadw data

Bydd y gwasanaeth olrhain gwastraff newydd nid yn unig yn gweithredu fel cyfleuster cadw cofnodion i'r rhai sydd ynghlwm wrth symudiadau gwastraff ond bydd yn gofnod canolog sy'n galluogi defnyddwyr a phartïon â diddordeb i gael data ar weithgareddau gwastraff i'w galluogi i gynnal gwaith dadansoddi a nodi patrymau a thueddiadau.

Felly, rydym yn cynnig y caiff rhai cofnodion sy'n rhan o'r gwasanaeth olrhain gwastraff eu cadw am fwy o amser na'r gofynion presennol; sef cyfnod o 20 mlynedd neu hyd nes y

²⁰ Mae GDPR yn diffinio 'rheolydd' fel a ganlyn: 'the natural or legal person, public authority, agency or other body which, alone or jointly with others, determines the purposes and means of the processing of personal data, where the purposes and means of such processing are determined by ... law, the controller or the specific criteria for its nomination may be provided for by ... law'

²¹ Mae GDPR yn diffinio 'prosesydd' fel a ganlyn: 'a natural or legal person, public authority, agency or other body which processes personal data on behalf of the controller'.

caiff trwydded ei hildio, heblaw am safleoedd tirlenwi lle cedwir cofnodion am 20 mlynedd arall ar ôl iddynt gael eu hildio.

Cynigiwn, ar ôl cyfnod o chwe blynedd, y bydd peth gwybodaeth am gofnodion unigol, megis data personol a llofnodion electronig, yn cael eu gwneud yn ddi-enw a chedwir data eraill nad ydynt yn bersonol a all fod o ddefnydd at ddibenion ystadegol.

Lle bydd cofnodion yn ymwneud ag ymchwiliad sy'n mynd rhagddo neu gamau gorfodi rheoleiddiwr, gellir cadw data personol am gyfnod hwy hyd nes y caiff yr achos perthnasol ei gau.

C43) Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar GDPR y DU?

- cytuno
- anghytuno
- dim barn

Os gwnaethoch ateb 'anghytuno', dywedwch pam wrthym

C44) Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynigion ar reoli gwybodaeth sensitif?

- cytuno
- anghytuno
- dim barn

Os gwnaethoch ateb 'anghytuno', dywedwch pam wrthym

C45) Oes gennych chi unrhyw sylwadau am ein cynigion (neu eich anghenion) ar gyfer cadw data?

- oes
- nac oes

Os gwnaethoch ateb 'oes', rhowch fanylion

Gorfodi

Mae Deddf yr Amgylchedd 2021 yn darparu pwerau i ganiatáu i reoliadau olrhain gwastraff gynnwys darpariaethau sy'n creu troseddau a gosbir drwy ddirwy, os methir â chydymffurfio â'r rheoliadau. Gall y rheoliadau hefyd gynnwys darpariaethau ynghylch gosod sancsiynau sifil gan awdurdod gorfodi.²²

Rydym yn cynnig y byddai rheoliadau olrhain gwastraff yn creu troseddau fel y nodir yn Nhabl 5 isod.

Gallai rheoleiddiwr gynnig amrywiaeth o ymatebion ar gyfer y troseddau hyn yn cynnwys ymyriadau fel cyngor a chanllawiau neu lythyrau rhybudd neu gamau gorfodi troseddol yn cynnwys rhoi rhybudd ffurfiol, neu gamau i erlyn. Erlyn fyddai'r cam olaf fel rheol a dim ond ar gyfer yr achosion mwyaf difrifol o dorri'r ddeddfwriaeth y caiff ei ddefnyddio ar y cyfan. Mae pwerau yn Neddf yr Amgylchedd 2021 yn datgan mai dim ond dirwy y gellir ei roi os ceir euogfarn. Byddai swm y dirwy yn cael ei bennu gan y llys yn unol â chanllawiau dedfrydu perthnasol.

Mae Tabl 5 hefyd yn nodi pa droseddau rydym hefyd yn bwriadu galluogi'r rheoleiddwyr i roi sancsiynau sifil ariannol ar eu cyfer os bydd busnes neu unigolyn yn torri gofyniad penodol yn y rheoliadau olrhain gwastraff. Hefyd rydym yn bwriadu sicrhau bod hysbysiadau cydymffurfio ar gael i awdurdodau gorfodi eu rhoi am yr holl droseddau hyn.

Tabl 5 – Troseddau olrhain gwastraff arfaethedig a'r sancsiynau sifil ariannol a all fod yn gymwys

Trosedd	Cosb ariannol benodedig	Cosb ariannol amrywiadwy
Methu â chofrestru i fod yn rhan o'r gwasanaeth olrhain gwastraff lle y bo'n ofynnol	Oes	Nac oes
Darparu gwybodaeth anghyflawn neu anwir mewn cofnod digidol a hynny'n fwriadol neu'n ddi-hid	Nac oes	Oes
Symud neu dderbyn gwastraff heb ddynodydd unigryw (a gynhyrchir drwy'r gwasanaeth olrhain gwastraff)	Nac oes	Oes
Methu â diweddarau neu gadarnhau gwybodaeth mewn cofnod gwastraff digidol yn yr amser gofynnol	Oes	Nac oes
Methu â darparu'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan y rheoliadau olrhain gwastraff i bobl eraill	Nac oes	Oes

²² Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru, neu awdurdod ar gyfer ardal yng Nghymru neu Loegr, a'r Adran yng Ngogledd Iwerddon. Mae gan Weinidogion yr Alban bwerau eisoes o ran Cosbau Ariannol Penodedig a Chosbau Ariannol Amrywiadwy o dan Ddeddf Diwygio Rheoleiddio (yr Alban) 2014.

Bydd deddfwriaeth²³ sy'n nodi'r ddyletswydd gofal gyffredinol am wastraff hefyd yn cael ei diwygio er mwyn nodi'r gofyniad i'r rhai sydd â dyletswydd gofal i:

- dim ond trosglwyddo gwastraff i rywun sydd wedi'i awdurdodi a'i gofrestru fel rhan o'r gwasanaeth olrhain gwastraff
- sicrhau bod disgrifiad cywir o wastraff ar gael yn ddigidol ar y cam trosglwyddo (i barti neu le arall)
- cymryd pob cam sy'n rhesymol o dan yr amgylchiadau i atal unrhyw dor-rheol gan y parti y trosglwyddir gwastraff iddo neu oddi wrtho

Pennu cosbau ariannol amrywiadwy

Bwriadwn alluogi awdurdodau gorfodi i bennu lefelau priodol ar gyfer cosbau ariannol amrywiadwy yn seiliedig ar ffactorau i'w nodi yn y rheoliadau. Byddai hyn yn galluogi'r rheoleiddiwr i bennu cosb mewn unrhyw achos penodol sy'n adlewyrchu natur ddifrifol yr achos hwnnw.

Mae'r ffactorau i'w nodi yn y rheoliadau yn debygol o gynnwys:

- y lefel o niwed a natur y tor-rheol
- beiusrwydd y sefydliad a/neu unigolyn dan sylw
- maint y sefydliad
- hanes o ddiffyg cydymffurfiaeth

C46) Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r troseddau arfaethedig neu'r opsiynau gorfodi cysylltiedig fel y'u nodir yn Nhabl 5?

- cytuno
- anghytuno
- dim barn

Os gwnaethoch ateb 'anghytuno', dywedwch pam wrthym

C47) Ydych chi'n meddwl y dylai fod uchafswm ar gyfer cosbau ariannol amrywiadwy wedi'i nodi mewn deddfwriaeth?

- ydw
- nac ydw
- dim barn

Os gwnaethoch ateb 'ydw', nodwch yr hyn y dylai'r uchafswm fod yn eich barn chi

²³ Ar gyfer Prydain Fawr hyn yw: [Adran 34 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990](#) ac ar gyfer Gogledd Iwerddon hyn yw [Adran 5 o Orchymyn Gwastraff a Tir Halogedig \(Gogledd Iwerddon\) 1997](#)

Swyddogaethau rheoleiddio

Mae Deddf yr Amgylchedd 2021 yn rhoi'r pwerau i'r rheoleiddwyr amgylcheddol ledled y DU adennill costau yr eir iddynt wrth gyflawni'r swyddogaethau a roddir iddynt gan y rheoliadau olrhain gwastraff. Rydym yn cynnig rhoi'r swyddogaethau dynodol canlynol i'r rheoleiddwyr amgylcheddol perthnasol.

- cyfrifoldeb dros weithredu a chynnal y gwasanaeth olrhain gwastraff yn barhaus
- cynnal archwiliadau o wybodaeth ar y gwasanaeth olrhain gwastraff er mwyn sicrhau cywirdeb a chydymffurfiaeth â gofynion cofnodi data
- nodi'r rhai nad ydynt yn bodloni'r gofynion i ddefnyddio'r gwasanaeth olrhain gwastraff a'u cael i gydymffurfio
- darparu a rheoli darpariaethau amgen ar gyfer y rhai sydd wedi'u heithrio'n ddigidol
- cynnal systemau digidol eraill sy'n cefnogi'r broses o weithredu'r gwasanaeth olrhain gwastraff er enghraifft, cofrestrau cyhoeddus ar gyfer cludwyr, broceriaid a gwerthwyr gwastraff
- casglu ffioedd neu daliadau rheoleiddiol sy'n daladwy
- dadansoddi ac adfer data o'r gwasanaeth olrhain gwastraff, er enghraifft ar gyfer monitro cydymffurfiaeth neu at ddibenion codi taliadau

Ni ellir fel rheol adennill costau ariannu gwaith gorfodi uniongyrchol sy'n ymwneud â'r rhai sy'n cyflawni troseddau megis ymchwilio gyda'r nod o erlyn, cymryd camau gorfodi am ddiffyg cydymffurfio gyda hysbysiad cydymffurfio neu gyflwyno cosbau, drwy ffioedd neu daliadau y darperir yn benodol ar eu cyfer drwy ddeddfwriaeth.

C48) A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'n swyddogaethau arfaethedig ar gyfer rheoleiddwyr amgylcheddol?

- cytuno
- anghytuno
- dim barn

Os gwnaethoch ateb 'anghytuno', dywedwch pam wrthym

C49) Yn eich barn chi, a ddylai fod modd adennill costau sy'n ymwneud ag ymchwilio i'r rhai nad ydynt yn bodloni'r gofynion olrhain gwastraff, a chymryd camau gorfodi yn eu herbyn, drwy'r ffioedd a'r taliadau ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth olrhain gwastraff? (Rhowch ragor o wybodaeth i ategu eich ateb os hoffech wneud hynny)

- dylai
- na ddylai
- dim barn

Codi taliadau

Yn unol ag egwyddor y sawl sy'n llygru sy'n talu, pan fydd y gwasanaeth olrhain gwastraff electronig yn fyw, bwriedir i ddefnyddwyr y gwasanaeth dalu am ei weithredu a'i gynnal yn barhaus, ynghyd ag unrhyw waith rheoleiddio cysylltiedig. Mae Deddf yr Amgylchedd 2021 yn cynnwys pwerau i adennill y costau hyn.

Bydd y rheoleiddwyr amgylcheddol yn ystyried diwygiadau angenrheidiol i'w fframweithiau codi taliadau presennol, er enghraifft gwastraff peryglus, ac yn ymgynghori ar unrhyw newidiadau arfaethedig i daliadau ar wahân.

Mae'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar sut y dylid adennill costau gweithredu a chynnal y gwasanaeth olrhain gwastraff byw yn y dyfodol. Bydd y rheoleiddwyr yn defnyddio ymatebion i'r cwestiynau hyn i lywio'r gwaith o ddatblygu eu fframweithiau codi taliadau.

Pwy ddylai dalu'r costau am weithredu a chynnal y gwasanaeth TG?

Opsiwn A - yr unigolyn neu'r busnes sy'n cofnodi'r wybodaeth gychwynol am olrhain gwastraff (yn cwblhau Cam 1 yn Atodiadau A i C)

Mae'n debygol mai cynhyrchwr gwastraff, cludwr gwastraff, neu werthwr/brocer gwastraff fydd hyn (nodwch ymhellach i lawr y gadwyn y gall safle derbyn hefyd ddod yn 'gynhyrchwr gwastraff').

Byddai cysylltiad uniongyrchol rhwng y taliadau a'r lefel o ddefnydd o'r gwasanaeth ond gallai annog cynhyrchwyr gwastraff i beidio â defnyddio'r system, a all fod yn fwy tebygol o ddirprwyo cofnodion cychwynol i gludwyr gwastraff.

Opsiwn B – grŵp defnyddwyr, er enghraifft naill ai:

- holl ddefnyddwyr cofrestredig y gwasanaeth olrhain gwastraff,
- un math o ddefnyddiwr gwasanaeth er enghraifft cludwyr gwastraff

Byddai taliadau'r system yn cael eu rhannu'n gyfartal rhwng y rhai yn y grŵp dethol.

Byddai hyn yn cyflwyno model syml sy'n hawdd ei ddeall ond gallai codi taliadau ar bob defnyddiwr cofrestredig fod yn faich gweinyddol sylweddol.

Opsiwn C – talwyr ffioedd sy'n gysylltiedig â gwastraff presennol

Bydd y system olrhain gwastraff yn cefnogi'r gwaith o fonitro cydymffurfiaeth cyfundrefnau gwastraff presennol ledled y DU – megis gwastraff peryglus, trwyddedu gwastraff, a chofrestru cludwyr gwastraff, a broceriaid a gwerthwyr gwastraff. Gallai hefyd gefnogi'r broses o weithredu Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer deunydd pecynnu.

Bydd talwyr ffioedd presennol yn cyfrif am y mwyafrif o'r symudiadau gwastraff a gofnodir fel rhan o'r gwasanaeth olrhain gwastraff, ond byddai'r opsiwn hwn yn golygu na fydd unrhyw un sy'n defnyddio'r gwasanaeth olrhain gwastraff nad ydynt eisoes yn talu unrhyw daliadau presennol er enghraifft rhai deiliaid esemptiadau gwastraff a chynhyrchwyr gwastraff yn rhannu costau taliadau'r gwasanaeth yn uniongyrchol.

Pa fath o gost ddylai fod?

Opsiwn 1 - Ffi 'fesul cofnod'

Byddai'r rhai sy'n gorfod talu hwn yn talu ffi benodol ar gyfer pob cofnod trosglwyddo neu symud gwastraff a gaiff ei greu.

Byddai hyn yn galluogi cysylltiad uniongyrchol rhwng taliadau a'r lefel o ddefnydd o'r gwasanaeth ond o ystyried y nifer uchel o gofnodion trosglwyddo gwastraff a ragwelir, mae'r ffi fesul cofnod unigol yn debygol o fod yn fach iawn ac yn anymarferol i'w gweinyddu ar gyfer niferoedd bach. Gellid gwrthbwysu hyn drwy ddefnyddio system credydau y byddai ffioedd cofnodion unigol yn cael eu didynnu ohoni.

Opsiwn 2 - Ffi flynyddol safonol

Rhennir taliadau'r system rhwng y rhai sy'n atebol i'w talu, er mwyn creu ffi flynyddol safonol. Byddem yn ceisio adeiladu cymesuredd yn seiliedig ar faint y busnes i mewn i'r model hwn.

Byddai hwn yn fodel syml y mae'n hawdd i bobl a busnesau ei ddeall a'i gynnwys yn eu costau ond nid yw'n cysylltu â'r lefel o ddefnydd o'r system felly gall fod yn annheg i ddefnyddwyr lefel isel.

Opsiwn 3 - Cynyddu ffioedd presennol

Os oes cyfundrefnau gwastraff sydd eisoes yn codi taliadau er enghraifft, ar gyfer symudiadau gwastraff peryglus, gallai'r taliadau hyn gael eu cynyddu i gynnwys y taliadau ar gyfer y gwasanaeth olrhain gwastraff.

Mae rhai o'r pwerau codi taliadau presennol, megis y rhai ar gyfer gwastraff peryglus, yn ddigon eang i gynnwys y taliadau hyn heb ddiwygio'r ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, mae eraill yn fwy cyfyngedig eu cwmpas, er enghraifft rhaid i daliadau trwydded amgylcheddol ymwneud â gweithgareddau penodol, megis rhoi trwydded neu gynnal y drwydded honno. Felly, gall fod angen diwygio pwerau codi taliadau cyfreithiol.

Sut y dylai'r costau gael eu casglu?

Opsiwn X – cyfleuster talu wrth gyflwyno

Cymerir taliad am symud gwastraff pan gychwynnir symudiad gwastraff ar y gwasanaeth neu caiff cytundeb debyd uniongyrchol ei greu i gymryd taliad yn fuan ar ôl hynny.

Bydd defnyddwyr yn talu'n gywir am lefel y gwasanaeth a geir ond mae'n debyg y bydd y gost gwasanaeth fesul trafodiad yn fach iawn ac efallai y bydd angen cam awdurdodi taliad â llaw ar daliadau unigol nad yw'n ddichonadwy ei ddefnyddio gydag API.

Opsiwn Y – system credydau

Byddai gan ddefnyddwyr y gwasanaeth gyfrif y gallant ychwanegu 'credydau' a brynwyd neu gyllid ato. Byddai taliadau/credydau am symudiadau gwastraff yn cael eu cymryd o gyfrif defnyddiwr.

Ar yr amod nad yw defnyddwyr yn goramcangyfrif nifer y credydau sydd eu hangen arnynt, byddant yn talu'n gywir am lefel y gwasanaeth a ddefnyddir ganddynt a bydd yn osgoi'r angen i reoleiddwyr fynd ar drywydd dyledion.

Opsiwn Z – mae'r rheoleiddwyr yn adennill costau'r gwasanaeth drwy fframweithiau ffioedd a thaliadau presennol

Byddai costau'r gwasanaeth yn cael eu codi ym mha ffordd bynnag a ddefnyddir ar hyn o bryd i godi taliadau ar dalwyr ffioedd rheoleiddiol presennol, er enghraifft drwy anfonebu.

Byddai'n hawdd gweinyddu'r opsiwn hwn ond mae ond yn cyd-fynd â model codi taliadau lle mae talwyr ffioedd rheoleiddiol presennol yn rhannu'r taliadau o ran y gwasanaeth.

C50) Beth yw eich opsiwn dewisol o ran pwy ddylai dalu'r costau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth TG?

- opsiwn A – yr unigolyn neu'r busnes sy'n cofnodi'r wybodaeth gychwynnol am olrhain gwastraff
- opsiwn B – grŵp defnyddwyr penodol
- opsiwn C – talwyr ffioedd sy'n gysylltiedig â gwastraff presennol
- arall
- dim barn

Os gwnaethoch ddewis 'Opsiwn B – grŵp defnyddwyr penodol', dywedwch wrthym pa grŵp/grwpiau defnyddwyr

Os gwnaethoch ddewis 'Arall', rhowch ragor o fanylion

C51) Beth yw eich opsiwn dewisol ar gyfer pa fath o gost y dylai fod?

- Opsiwn 1 – ffi fesul cofnod
- Opsiwn 2 – ffi flynyddol safonol
- Opsiwn 3 – cynyddu ffioedd presennol
- arall
- dim barn

Os gwnaethoch ddewis 'Arall', rhowch ragor o fanylion

C52) Beth yw eich opsiwn dewisol ar gyfer sut y dylid casglu'r costau?

- opsiwn X – cyfleuster talu wrth gyflwyno
- opsiwn Y – system credydau
- opsiwn X – mae'r rheoleiddwyr amgylcheddol yn adennill costau'r gwasanaeth drwy ffioedd a thaliadau presennol
- arall
- dim barn

Os gwnaethoch ddewis 'Arall', rhowch ragor o fanylion

Gweithredu

Rydym yn gweithio tuag at ddyddiad targed i lansio gwasanaeth olrhain gwastraff digidol canolog o 2023 i 2024 yn dibynnu ar ddatblygiadau TG ac anghenion pontio busnesau.

Pan fydd wedi ei lansio mae sawl opsiwn i drosglwyddo'r broses o gofnodi symudiadau gwastraff i'r system, gan gynnwys:

1. Mynnu bod pob defnyddiwr gofynnol yn defnyddio'r gwasanaeth o'r adeg y caiff ei lansio
2. Caniatáu'r defnydd gwirfoddol o'r gwasanaeth am gyfnod penodol, pan fydd gofynion presennol yn dal i fod yn gymwys (gellid defnyddio'r gwasanaeth olrhain gwastraff i ddangos cydymffurfiaeth â'r gofynion hyn)
3. Ar y dechrau dim ond mynnu bod math penodol o ddefnyddiwr neu fath o symudiad gwastraff yn defnyddio'r gwasanaeth er enghraifft, ar gyfer gwastraff a symudir o dan reolaethau Gwastraff y Rhestr Werdd a bod symudiadau a gweithgareddau gwastraff pellach yn dod yn orfodol dros amser.

C53) Pa ddull gweithredu y dylem ei ddefnyddio i gael pob defnyddiwr i ddefnyddio'r gwasanaeth olrhain gwastraff yn eich barn chi?

- opsiwn 1 – rhaid i bawb ddefnyddio'r gwasanaeth o'r diwrnod y caiff ei lansio
- opsiwn 2 – defnydd gwirfoddol am gyfnod penodol, wedyn bydd yn ofynnol i bawb ei ddefnyddio
- opsiwn 3 – gorfodi rhai deiliaid gwastraf i ddefnyddio'r gwasanaeth neu ei gwneud yn ofynnol i rai mathau penodol o symudiadau gwastraff gael eu cofnodi ar y gwasanaeth i ddechrau ac yna annog eraill i'w ddefnyddio dros amser
- rhywbeth arall
- dim barn

Os gwnaethoch ateb, 'Opsiwn 3', pa ddefnyddwyr neu fathau o wastraff y dylid eu gorfodi i ddechrau a pham yn eich barn chi?

Os gwnaethoch ateb 'Rhywbeth arall', rhowch fanylion

Systemau presennol a newidiadau deddfwriaethol

Bydd cyflwyno gwasanaeth gorfodol canolog ar gyfer olrhain gwastraff digidol yn golygu na fydd angen rhai systemau TG presennol sy'n rhan o'r prosesau cyfredol ar gyfer cofnodi symudiadau gwastraff mwyach.

Mae hyn yn cynnwys y system Dyletswydd Gofal Electronig, sef system TG a oedd yn galluogi defnyddwyr i greu a storio rhai mathau o gofnodion symud gwastraff, a chryn dipyn o weithrediad WasteDataFlow sef system electronig lle mae awdurdodau lleol yn cyflwyno data i'r llywodraeth ar eu casgliadau gwastraff trefol.

Bydd hefyd angen gwneud amrywiaeth o ddiwygiadau deddfwriaethol, gan gynnwys i ddeddfwriaeth ledled y DU, yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) ddeddfwriaeth yn ymwneud â'r ddyletswydd gofal gwastraff, gwastraff peryglus, cludo gwastraff, trwyddedu gwastraff ac, yng Nghymru, y defnydd statudol o WasteDataFlow gan awdurdodau lleol.

Hefyd bydd angen i godau ymarfer dyletswydd gofal pob gwlad gael eu diwygio, gan gynnwys dileu unrhyw gyfeiriadau at y system Dyletswydd Gofal Electronig sydd bellach wedi'i datgomisiynu.

Costau a buddiannau symud i gwasanaeth olrhain gwastraff ddigidol

Yn yr asesiad effaith sydd wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn, rydym wedi amcangyfrif y costau trosglwyddo posibl i fusnesau sy'n defnyddio gwasanaeth olrhain gwastraff canolog, yn seiliedig ar arolwg wedi'i gynnal ag aelodau o'n panel defnyddwyr, ond hoffem achub ar y cyfle hwn i ddwyn ynghyd y wybodaeth hon o gynulleidfa ehangach.

C54) O ystyried eich ateb i gwestiwn 24 yn yr adran '[Ffyrdd o roi gwybodaeth](#)', yn eich barn chi faint fydd yn ei gostio i'ch sefydliad newid i weithio fel hyn?

Rhowch gostau mewn punnoedd ar gyfer y flwyddyn gyntaf yn unig a dim ond cynnwys costau ychwanegol newydd sy'n benodol gysylltiedig â'r gwasanaeth olrhain gwastraff, nid costau staff a seilwaith yr eid iddynt heb waanaeth olrhain gwastraff newydd.

- hyfforddiant staff (cost cyfanswm nifer yr oriau ar gyfer pob aelod o staff angenrheidiol)
- amser ymgysylltu (cost yr amser cychwynnol yn dod i ddeall cost y system o ran cyfanswm nifer yr oriau ar gyfer pob aelod o staff angenrheidiol)
- ymgysylltu â gofynion (amser i ddeall gofynion cyfreithiol newydd - cost cyfanswm nifer yr oriau ar gyfer pob aelod o staff angenrheidiol)
- ymgysylltu â chwsmeriaid (er enghraifft, cyfathrebu â chwsmeriaid ynghylch unrhyw brosesau newydd y byddwch yn eu mabwysiadu i gydymffurfio â'r system newydd, neu'r hyn mae angen iddynt ei wneud i gydymffurfio)
- newidiadau i systemau TG presennol (gallai hyn gynnwys, er enghraifft, gost cyfanswm yr oriau a dreulir yn diweddarau eich taenlen bresennol i fod yn gyson â thempled safonol, neu ddatgomiynu unrhyw TG bresennol sydd gennych)
- darparu unrhyw dechnoleg ar y safle (megis cost llechi neu ffonau clyfar ar gyfer gweithredwyr casglu gwastraff i gofnodi trafodion gwastraff ar y safle mewn amser real)
- arall (disgrifiwch)

C55) Ydych chi o'r farn y byddai eich sefydliad yn gwneud unrhyw arbedion drwy ddechrau gweithio fel hyn? Megis drwy'r canlynol:

- llai o gostau storio data
- treulio llai o amser yn gwirio ansawdd data
- arbedion am nad oes angen cwblhau a chyflwyno ffurflenni gwastraff ar gyfer rheoleiddwyr
- treulio llai o amser yn cael a darparu gwybodaeth am wastraff oddi wrth neu i gwsmeriaid
- arall (disgrifiwch)

Rhowch ffigur ar gyfer arbedion ar gyfer pob un o'r eitemau arbedion posibl canlynol, os yn berthnasol, ac unrhyw arbedion posibl eraill rydych yn meddwl y byddech yn eu gwneud. Nodwch yr arbedion ar gyfer y flwyddyn gyntaf yn unig.

C56) Ynghyd â'r ymgynghoriad hwn, rydym wedi cyhoeddi asesiad effaith sy'n nodi'r costau a'r buddiannau rydym yn eu rhagweld yn sgil cyflwyno gwasanaeth olrhain gwastraff digidol gorfodol, yn seiliedig ar dybiaethau a wnaed o'r dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd.

A ydym wedi gwneud unrhyw dybiaethau rydych yn anghytuno â nhw?

- ydych
- nac ydych
- dim barn

Os gwnaethoch ateb 'ydych', dywedwch wrthym pam rydych yn anghytuno ac, os yw'n bosibl, rhowch fanylion gwybodaeth well y gallem ei defnyddio i lywio ein tybiaethau.

Adborth Ymgynghoreion ar yr Arolwg Ar-lein

C57) Ar y cyfan, pa mor fodlon ydych chi ar ein hadnodd ymgynghori ar-lein?

- Bodlon iawn
- Bodlon
- Ddim yn fodlon nac yn anfodlon
- Anfodlon
- Anfodlon iawn
- Ddim yn gwybod

Rhowch unrhyw sylwadau sydd gennych ar yr adnodd, gan gynnwys awgrymiadau ynglŷn â sut y gallem ei wella.

Atodiad A: prosesau olrhain gwastraff digidol gorfodol yn y dyfodol ar gyfer symudiadau gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus

Cam	Beth	Pryd	Pwy
1	<p>Caiff gwybodaeth am symud gwastraff ei chofnodi ar y gwasanaeth olrhain gwastraff a chaiff dynodydd unigryw ei greu.</p> <p>Y wybodaeth i'w chofnodi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • manylion y cynhyrchwr neu'r deiliad • Disgrifiad o'r gwastraff a'r manylion (yn cynnwys cod SIC y broses sy'n arwain at greu'r gwastraff) • manylion y cludwr a manylion y cerbyd os ydynt yn hysbys • manylion y brocer neu'r gwerthwr (os yn gymwys) • dyddiad arfaethedig y symudiad • manylion y gyrchfan (yn cynnwys manylion y caniatâd awdurdodi gwastraff sydd mewn grym) • ar gyfer symud gwastraff peryglus yn unig: cytundeb yr anfonwr y bydd yn hysbysu'r cludwr am unrhyw ofynion trafod arbennig 	Gweler C30	Gweler C31
2	<p>Cludwr yn casglu'r gwastraff. Cofnod trosglwyddo gwastraff digidol yn cael ei ddiweddarau i:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ ychwanegu manylion cofrestru'r cerbyd ▪ ychwanegu enw'r gyrrwr ▪ cadarnhau dyddiad ac amser y casgliad ▪ ychwanegu'r dull o deithio (os na ddefnyddir y ffordd) ▪ diweddarau a/neu gadarnhau'r mathau o wastraff a'r cyfeintiau ▪ cadarnhau bod y gwastraff wedi mynd i'r gyrchfan arfaethedig <p>Os trosglwyddir y gwastraff i gludwyr eraill bydd angen iddynt gwblhau'r cam hwn hefyd</p>	Gweler C32	Cludwr gwastraff
3	<p>Mynd â'r gwastraff i safle derbyn. Cofnod trosglwyddo gwastraff digidol yn cael ei ddiweddarau i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cadarnhau dyddiad ac amser derbyn y gwastraff • cadarnhau a/neu ddiweddarau'r mathau o wastraff a'r cyfeintiau • darparu manylion llwythi wedi'u gwrthod (os yn gymwys) 	Gweler C34	Safle derbyn y gwastraff

Atodiad B: prosesau olrhain gwastraff digidol gorfodol yn y dyfodol ar gyfer allforion Gwastraff y Rhestr Werdd

Cam	Beth	Pryd	Pwy
1	<p>Caiff gwybodaeth am y llwyth ei chofnodi ar y gwasanaeth olrhain gwastraff a chaiff dynodydd unigryw ei greu.</p> <p>Y wybodaeth i'w chofnodi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • dyddiad arfaethedig neu wirioneddol allforio'r llwyth (ei ddiweddarau fel sydd angen) • manylion y cludwr • manylion y cynhyrchwr gwastraff – o ble y caiff y gwastraff ei gasglu, yn cynnwys manylion y busnes a/neu'r unigolyn • i ble y mae'r gwastraff yn mynd • codau adnabod y gwastraff • disgrifiad o'r gwastraff • gwledydd dan sylw • faint o wastraff 	Gweler C30	Unigolyn sy'n trefnu'r llwyth
2	<p>Cludwr cyntaf yn casglu'r gwastraff. Diweddarau'r cofnod trosglwyddo gwastraff digidol i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ychwanegu manylion cofrestru'r cerbyd • ychwanegu enw'r gyrrwr • cadarnhau dyddiad ac amser y casgliad • ychwanegu'r dull o deithio (os na ddefnyddir y ffordd) • diweddarau a/neu gadarnhau'r mathau o wastraff a'r cyfeintiau 	Gweler C32	Cludwr gwastraff
3	Os trosglwyddir y gwastraff i gludwyr eraill yna dylai'r cludwyr hynny gwblhau Cam 2	Ddim yn berthnasol	Cludwyr gwastraff
4	Cludwr yn mynd â'r gwastraff i ben y daith yn y DU i'w allforio. Cludwr yn nodi dyddiad ac amser cyrraedd y safle	Gweler C32	Cludwr gwastraff
5	<p>Gwastraff yn teithio i'r safle derbyn ac yn cyrraedd y safle derbyn bwriadedig y tu allan i'r DU, neu safle derbyn yng Ngogledd Iwerddon (pan fydd y llwyth yn mynd o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon).</p> <p>Nodwch: Ystyrir cynigion ynghylch y wybodaeth fydd yn ofynnol gan safleoedd derbyn y tu allan i'r DU er mwyn cadarnhau derbyn y gwastraff fel rhan o ymgynghoriad ar wahân ar ddiwygiadau ehangach ynghylch cludo gwastraff ar draws ffiniau</p>	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau

Bydd angen copi papur o'r cofnod electronig gyda'r gwastraff o hyd. Cyfrifoldeb y sawl sy'n trefnu'r llwyth neu'r cludwr gwastraff fydd sicrhau bod cofnod papur ar gael. Bydd y gwasanaeth olrhain gwastraff yn cynnwys y gallu i argraffu copi o gofnod.

Atodiad C: prosesau olrhain gwastraff digidol gorfodol yn y dyfodol ar gyfer mewnfurion Gwastraff y Rhestr Werdd

Cam	Beth	Pryd	Pwy
1	<p>Caiff gwybodaeth am y llwyth ei chofnodi ar y gwasanaeth olrhain gwastraff a chaiff dynodydd unigryw ei greu.</p> <p>Y wybodaeth i'w chofnodi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • dyddiad arfaethedig neu wirioneddol mewnfurio'r llwyth (ei ddiweddarau fel sydd angen) • Manylion y cludwr yn y DU • manylion y cynhyrchwr gwastraff – o ble y caiff y gwastraff ei gasglu, yn cynnwys manylion y busnes a/neu'r unigolyn • cyrchfan arfaethedig y gwastraff • codau adnabod y gwastraff • disgrifiad o'r gwastraff • gwledydd dan sylw • faint o wastraff 	Gweler C30	Mewnfurwr (yn y DU yn unig)
2	<p>Cludwr cyntaf yn casglu'r gwastraff yn y DU, diweddarau'r cofnod trosglwyddo gwastraff digidol i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ychwanegu manylion cofrestru'r cerbyd • ychwanegu enw'r gyrrwr • cadarnhau dyddiad ac amser y casgliad • ychwanegu'r dull o deithio (os na ddefnyddir y ffordd) • diweddarau a/neu gadarnhau'r mathau o wastraff a'r cyfeintiau 	Gweler C32	Cludwr gwastraff
3	<p>Os trosglwyddir y gwastraff i gludwyr eraill yna dylai'r cludwyr hynny gwblhau Cam 2</p>	Ddim yn berthnasol	Cludwyr gwastraff
4	<p>Mynd â'r gwastraff i safle derbyn yn y DU. Cofnod trosglwyddo gwastraff digidol yn cael ei ddiweddarau i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cadarnhau dyddiad ac amser derbyn y gwastraff • cadarnhau neu ddiweddarau'r mathau o wastraff a'r cyfeintiau • darparu manylion llwythi wedi'u gwrthod (os yn gymwys) 	Gweler C34	Safle derbyn y gwastraff

Lle y caiff gwastraff ei fewnfurio o'r tu allan i'r DU, bydd angen copi papur o'r symudiad o hyd gyda'r gwastraff er mwyn bodloni gofynion y wlad allforio.